# Adroddiad ar y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Phorthiant

Cyngor Sir y Fflint
28 Hydref – 1 Tachwedd 2013

# Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi awdurdodau lleol o ran cyfraith porthiant a bwyd yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder cwsmeriaid mewn perthynas â bwyd a phorthiant. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant y DU o ran diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd a fewnforir, a bwydydd anifeiliaid. Caiff swyddogaethau rheoleiddio'r awdurdodau lleol hyn eu darparu yn bennaf drwy eu Gwasanaethau Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad atodedig yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Phorthiant yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyried y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer ymyriadau mewn busnesau bwyd a phorthiant, samplu bwyd a phorthiant, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodaeth, hyrwyddo diogelwch bwyd a phorthiant. Dylid cydnabod y bydd llawer o amrywiaeth efallai o ran y ffordd y gall awdurdodau lleol ddarparu eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Phorthiant. Mae'r "Safon" a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Porthiant a Bwyd Swyddogol gan Awdurdodau Lleol (diwygiwyd Ebrill 2010) ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy:
www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da ac yn darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau a bwydydd anifeiliaid ac mae ar gael drwy:
www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft ar nifer yr arolygiadau o safleoedd bwyd a gynhaliwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data ar weithgarwch gorfodi ar gyfer holl awdurdodau lleol y DU a gellir dod o hyd i hyn drwy: www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

Os oes angen cymorth arnoch, ceir geirfa o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio yn Atodiad C.

| | CYNNWYS | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | **Cyflwyniad** | **5** |
| | Rheswm dros yr Archwiliad | **5** |
| | Cwmpas yr Archwiliad | **5** |
| | Cefndir | **6** |
| 2 | **Crynodeb Gweithredol** | **9** |
| | **Canfyddiadau'r Archwiliad** | |
| 3 | Trefniadaeth a Rheolaeth | **12** |
| 4 | Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig | **17** |
| 5 | Swyddogion Awdurdodedig | **18** |
| 6 | Cyfleusterau a Chyfarpar | **21** |
| 7 | Ymyriadau ac Arolygiadau Sefydliadau Bwyd a Phorthiant | **23** |
| 8 | Cwynion am Fwyd, Porthiant a Sefydliadau Bwyd | **35** |
| 9 | Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref | **37** |
| 10 | Cyngor i Fusnesau | **38** |
| 11 | Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd a Phorthiant | **40** |
| 12 | Archwilio a Samplu Bwyd a Phorthiant | **41** |
| 13 | Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd | **43** |
| 14 | Digwyddiadau yn ymwneud â Diogelwch Bwyd a Phorthiant | **45** |
| 15 | Gorfodi | **46** |
| 16 | Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu | **50** |
| 17 | Cwynion am y Gwasanaeth | **54** |
| 18 | Cyswllt â Sefydliadau Eraill | **55** |
| 19 | Monitro Mewnol | **56** |
| 20 | Adolygiad Trydydd Parti neu Adolygiad gan Gymheiriaid | **59** |
| 21 | Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Phorthiant | **60** |
| | **Atodiadau** | |

A Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir y Fflint 61
B Dull/Methodoleg Archwilio x
C Geirfa x

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau archwiliad o hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yng Nghyngor Sir y Fflint o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Phorthiant yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae'r adroddiad ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen ar wefan yr Asiantaeth drwy ***www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports***

### *Rheswm dros yr Archwiliad*

1.2 Cafodd y pŵer i bennu safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant awdurdodau lleol eu rhoi i'r ASB o dan Ddeddf Safonau Bwyd 2009 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Borthiant a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o'r gwasanaeth bwyd a phorthiant yng Nghyngor Sir y Fflint o dan adran 12(4) o'r Ddeddf a Rheoliad 7 o'r Rheoliadau.

1.3 Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau bod cydymffurfiaeth â chyfraith porthiant a bwyd yn ddilys, yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys gynnal archwiliadau mewnol neu archwiliadau allanol. Diben yr archwiliadau hyn yw cadarnhau a gaiff rheolaethau swyddogol yn ymwneud â chyfraith porthiant a bwyd eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r ASB, sef yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith porthiant a bwyd yn y DU, wedi pennu trefniadau archwilio allanol. Wrth lunio'r rhain, ystyriodd yr Asiantaeth ganllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylid cynnal archwiliadau o'r fath.[1]

1.4 Archwiliwyd yr awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013-2016) o archwiliadau llawn o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

### *Cwmpas yr Archwiliad*

1.5 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu trefniadau Sir y Fflint ar gyfer cyflawni hylendid bwyd, safonau bwyd a gwasanaethau gorfodi cyfraith porthiant. Cynhaliwyd yr elfen ar y safle o'r archwiliad yn swyddfeydd yr awdurdod yn yr Wyddgrug rhwng 28 Hydref ac 1 Tachwedd 2013. Roedd yr archwiliad yn cynnwys ymweliadau dilysu mewn busnesau bwyd a phorthiant i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a roddwyd ar waith gan yr awdurdod, ac yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhaliwyd gan swyddogion yr awdurdod, i gadarnhau cydymffurfiaeth gweithredwyr

---

[1] Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 yn nodi'r canllawiau ar feini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Reolaethau Swyddogol i gadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a phorthiant, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid (2006/677/CE).

busnesau bwyd a phorthiant â gofynion deddfwriaethol. Ni chafodd Iechyd Porthladd ei ystyried i fod o fewn cwmpas yr achwiliad.

1.6 Roedd yr archwiliad yn gyfle hefyd i drafod â swyddogion sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant gyda'r nod o archwilio materion allweddol a holi barn i lywio polisi'r Asiantaeth.

1.7 Gwnaeth yr archwiliad asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â'r "Safon". Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr ASB ar 21ain Medi 2000 (a chafodd ei diwygio am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae'n rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol Mae'r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree

***Cefndir***

1.8 Mae Cyngor Sir y Fflint yn awdurdod unedol yng nghornel gogledd-ddwyreiniol Cymru. Mae'n cwmpasu ardal o 43,464 o hectarau, ac mae Sir Ddinbych, Wrecsam a Swydd Gaer yn Lloegr yn ffinio â hi. Y pum ardal anheddol fawr yw'r Wyddgrug, y Fflint, Bwcle, Treffynnon a Glannau Dyfrdwy.

1.9 Gall poblogaeth Sir y Flint, sef 152,500, newid bob tymor oherwydd twristiaid.

1.10 Yn draddodiadol roedd Sir y Fflint yn economi ddiwydiannol gyda glo, dur a thecstilau yn bennaf. O ganlyniad i ddirywiad y diwydiannau hyn ar ddechrau'r 1980au cododd lefelau diweithdra hyd at 20 y cant. Fodd bynnag, cafwyd adferiad dramatig pan ddatblygodd busnesau cynhenid, bach a chanolig eu maint, ar y cyd â mewnfuddsoddiad. Mae nifer o ystadau diwydiannol lle mae llawer o weithgynhyrchwyr, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr bwyd wedi'u lleoli yn ogystal â phencadlys manwerthwr bwyd cenedlaethol mawr.

1.11 Mae ymyl arfordirol Sir y Fflint yn cyffinio ag aber Afon Dyfrdwy sydd â thri gwely cocos a gwely cregyn gleision sydd o dan awdurdodaeth yr awdurdod. Mae'r rhain yn rhoi pwysau mawr ar y gwasanaeth diogelwch bwyd yn enwedig yn ystod tymor cynaeafu'r cocos sy'n para chwe mis. Mae porthladd bach ym Mostyn hefyd lle mae gan wasanaeth diogelwch bwyd yr awdurdod gyfrifoldeb i ddosbarthu Tystysgrifau Glanweithdra Llongau a chynnal arolygiadau o hylendid bwyd ar longau.

1.12 Lefelau isel o amddifadedd sydd gan Sir y Fflint yn gyffredinol . Fodd bynnag, mae pocedi o amddifadedd a 4% o'i hardaloedd lleol sydd yn y 10% o'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011.

1.13 Cynhaliwyd gwaith gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant gan swyddogion yng Ngwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod yn Adran yr Amgylchedd. Goruchwyliwyd y gwaith o ddarparu gwasanaethau gorfodi diogelwch bwyd, safonau a bwydydd anifeiliaid gan y Rheolwr Diogelu Iechyd, ac Arweinydd y Tîm (Diogelwch a Safonau Bwyd) oedd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaethau o ddydd i ddydd ac yn achos bwydydd anifeiliaid, Arweinydd y Tîm (Iechyd Anifeiliaid a Hybu Iechyd).

1.14 Roedd swyddogion a staff cymorth sy'n gyfrifol am hylendid bwyd, safonau bwyd a phorthiant wedi'u lleoli yn Neuadd y Sir yn yr Wyddgrug. Roedd y gwasanaethau ar gael rhwng 08:30 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

1.15 Yn 2013/14 cofnododd yr awdurdod fod 1,536 o sefydliadau bwyd yn Sir y Fflint.

1.16 Nododd Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2013/14 fod yr awdurdod wedi neilltuo'r adnoddau staff canlynol i'r gwaith o gyflawni cyfraith gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid:

5.5 o Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd cyfwerth ag amser llawn;
3 Swyddog Diogelwch Bwyd cyfwerth ag amser llawn;
1 Swyddog Safonau Masnach cyfwerth ag amser llawn;
0.4 Swyddog Gorfodi Safonau Masnach cyfwerth ag amser llawn;
0.1 Arweinydd tîm Iechyd Anifeiliaid a Hybu Iechyd cyfwerth ag amser llawn;
0.2 Swyddog Gorfodi Iechyd Anifeiliaid cyfwerth ag amser llawn;
1 Swyddog Gweinyddol cyfwerth ag amser llawn

1.17 Cofnodwyd bod gwariant ar ddiogelwch a safonau bwyd yn 2012/13 yn £453,073 (yn cynnwys staffio, teithio, samplu a hyfforddi) a bod disgwyl i swm cymaradwy gael ei wario yn 2013/14.

1.18 Mae'r awdurdod wedi bod yn cyfranogi yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a lansiwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2010. Ar adeg yr archwiliad, roedd sgoriau hylendid bwyd 829 o sefydliadau bwyd yn Sir y Fflint ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol.

## 2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Archwiliwyd Cyngor Sir y Fflint fel rhan o raglen dreigl tair blynedd o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Darparwyd gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant gan wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod. Roedd y Rheolwr Diogelu Iechyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Cyfrifoldeb yr Arweinydd Tîm (Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd) oedd rheoli safonau hylendid bwyd a bwyd o ddydd i ddydd a chyfrifoldeb yr Arweinydd Tîm (Iechyd Anifeiliaid a Hybu Iechyd) oedd rheoli gwasanaeth porthiant yr awdurdod o ddydd i ddydd.

2.2 Datblygwyd Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2013/2014 gan nodi cynlluniau'r awdurdod ar gyfer darparu gwasanaethau hylendid bwyd, safonau bwyd a phorthiant. Ategwyd y Cynllun Gwasanaeth gan Gynllun Gweithredu Uno Safonau Bwyd/Diogelwch Bwyd a Chynllun Gweithredu Bwydydd Anifeiliaid.

2.3 Roedd disgwyl i Gynllun Gweithredu Uno Safonau Bwyd/Diogelwch Bwyd gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2014. Ar adeg yr archwiliad roedd cynnydd da wedi'i wneud ac roedd yr awdurdod ar y trywydd iawn i gwblhau'r camau gweithredu yn unol â'r targed.

2.4 Dangosodd yr awdurdod ei fod yn cymryd camau seiliedig ar risg i gynnal ymyriadau hylendid a safonau bwyd, a’i fod wedi bod yn rhagweithiol wrth helpu busnesau bwyd i gydymffurfio â’r gyfraith.

2.5 O ran gorfodi bwydydd anifeiliaid roedd yr awdurdod wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar sicrhau cywirdeb ei gronfa ddata porthiant. Ar adeg yr archwiliad roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo. Ni wnaed digon o gynnydd wrth gyflawni ymyriadau porthiant. Bydd Cynllun Gweithredu Bwydydd Anifeiliaid, sy'n pennu'r tasgau i'w cyflawni rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014, yn helpu'r awdurdod i fodloni gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Porthiant.

### 2.6 Cryfderau'r Awdurdod

**Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd ar gyfer safonau hylendid bwyd a bwyd**

Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a oedd yn hygyrch i staff ac yn cael eu hadolygu'n gyson.

**Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref**

Roedd cymryd rhan yng Nghynllun y Prif Awdurdod a darparu cyngor i'r Awdurdod Cartref yn dangos bod yr awdurdod yn ymrwymedig i gefnogi busnesau lleol.

**Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd a Chyngor ar Borthiant i Fusnesau**
Mae'r awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth helpu busnesau i gydymffurfio â'r gyfraith.

**Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus sy’n ymwneud â Bwyd**
Roedd gweithdrefnau gwaith cynhwysfawr wedi cael eu datblygu, ac roedd y rhain yn cael eu rhoi ar waith. Roedd cofnodion manwl o ymchwiliadau’n cael eu cynnal.

**Monitro Hylendid a Safonau Bwyd yn Fewnol**
Roedd trefniadau ar gyfer monitro gwasanaethau hylendid a safonau bwyd yr awdurdod yn fewnol wedi cael eu dogfennu ac yn cael eu gweithredu. Roedd Arweinydd y Tîm yn gallu dangos bod swyddogion wedi cael adborth manwl ar eu gwaith.

**Hybu Diogelwch a Safonau Bwyd**
Roedd yr awdurdod wedi cyflawni nifer o fentrau gyda'r nod o hybu diogelwch a safonau bwyd. Yn eu plith roedd hyfforddiant ar hylendid bwyd, darparu taflenni cyngor, erthyglau rheolaidd yn y wasg leol yn y cylchlythyr a anfonir at breswylwyr lleol ddwywaith y flwyddyn.

## 2.7 Meysydd Allweddol yr Awdurdod ar gyfer Gwella

**Trefniadaeth a Rheolaeth Porthiant**
Cafodd trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth porthiant yr awdurdod eu cynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd. Fodd bynnag, nid ymdriniwyd â phob elfen o'r canllawiau cynllunio gwasanaethau. Nid oedd y gweithgareddau yn bodloni'r rhai a oedd yn ofynnol er mwyn i'r awdurdod ddangos ei fod yn darparu gwasanaeth porthiant sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant. Er i'r Cynllun Gweithredu Bwydydd Anifeiliaid roi rhywfaint o sicrwydd y câi gwelliannau i'r gwasanaeth eu gwneud, ni ddarparwyd amcangyfrif o'r adnoddau yr oedd eu hangen er mwyn cyflawni'r Cynllun Gweithredu yn erbyn y rhai a oedd ar gael.

**Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd ac Amlder Ymyriadau Porthiant**
Nid oedd yr awdurdod yn cynnal ymyriadau porthiant ar y raddfa leiaf sy'n ofynnol yn y Codau Ymarfer. At hynny, nid oedd ymyriadau hylendid bwyd a safonau mewn sefydliadau lle roedd y risg yn is yn cael eu cynnal bob tro yn ôl y disgwyl. Mae ymyriadau sy'n cael eu cynnal yn ôl y

disgwyl yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â busnesau bwyd a phorthiant yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt mewn ffordd amserol.

**Safonau Bwyd ac Ymyriadau Porthiant**
Roedd rhai sefydliadau bwyd a phorthiant wedi cael eu sgorio heb i ymweliad gael ei gynnal. Roedd y sgoriau risg yn seiliedig ar y gweithgareddau a gafodd eu hadrodd gan gweithredwyr busnesau bwyd/porthiant. At hynny, lle y cynhaliwyd arolygiadau o safonau bwyd roeddent wedi bod yn rhai lle rhoddwyd rhybudd yn hytrach na rai dirybudd. Nodwyd y materion hyn yn sgil monitro mewnol. Bydd gweithredu Cynllun Gweithredu Safonau Bwyd/Diogelwch Bwyd yr awdurdod a'r Cynllun Gweithredu Bwydydd Anifeiliaid yn sicrhau bod arolygiadau'n cael eu cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a Phorthiant.

**Cofnodion Porthiant ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu**
Nid oedd digon o wybodaeth ar gael ar ffeiliau sefydliadau porthiant er mwyn galluogi swyddog nad oedd wedi ymweld yn flaenorol i gadarnhau ei hanes cydymffurfio llawn a sicrhau dull graddedig o orfodi. At hynny, nid oedd yn bosibl nodi bob tro a oedd gweithredwyr busnesau porthiant wedi derbyn adroddiadau yn dilyn arolygiadau.

## Canfyddiadau'r Archwiliad

## 3 Trefniadaeth a Rheolaeth

*Fframwaith, Polisi a Gwaith Cynllunio Gwasanaeth Strategol*

3.1 Roedd yr awdurdod yn gweithredu dull Cabinet o lywodraeth leol gyda Chyfansoddiad a oedd yn nodi trefniadau gwneud penderfyniadau'r awdurdod. Yn unol â'r Cyfansoddiad, roedd penderfyniadau ar rai materion penodol wedi'u dirprwyo i swyddogion.

3.2 Roedd 'Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2013/14' ('y Cynllun Gwasanaeth') wedi cael ei ddatblygu a oedd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gyfyngedig am orfodi cyfraith porthiant. Roedd y Cynllun Gwasanaeth wedi cael ei gymeradwyo gan yr Aelod perthnasol o'r Cabinet ym mis Mehefin 2013 ac roedd ar gael ar wefan yr awdurdod.

3.3 Roedd cyfraniad y Gwasanaeth Bwyd at Strategaeth Gymunedol a Chynllun Gwella'r awdurdod wedi cael ei gydnabod yn y Cynllun Gwasanaeth, ynghyd â chysylltiadau i'r Cynllun Cyfarwyddiaeth Amgylcheddol a Chynllun Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd.

3.4 Nododd y Cynllun Gwasanaeth nodau ac amcanion y gwasanaeth bwyd. Y nodau oedd hyrwyddo, drwy addysg a dulliau gorfodi, werthu a/neu gynhyrchu bwyd sy'n iawn i'w fwyta ac nad yw'n peri risg i iechyd, ac atal a rheoli lledaeniad salwch a gludir mewn bwyd drwy addysg a dulliau gorfodi.

3.5 Amcanion y gwasanaeth oedd:

- Darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd cyflawn a chyfannol yn cwmpasu meysydd hylendid a diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn unol â deddfwriaeth bwyd berthnasol a Chodau Ymarfer, gan gyflawni rhwymedigaethau statudol.

- Darparu gwasanaeth ymateb i elfennau wedi'u llywio gan y galw megis digwyddiadau diogelwch bwyd, achosion o glefyd heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cwynion a chais am gyngor gan fusnesau ac aelodau o'r cyhoedd, yn unol â dangosyddion perfformiad wedi'u diffinio'n lleol, Codau Ymarfer perthnasol, cynlluniau a phrotocolau.

- Helpu busnesau i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol gan ddefnyddio cydbwysedd o dechnegau a dulliau gweithredu er mwyn sicrhau diogelwch a lles y Cyhoedd a'r amgylchedd yn unol â Pholisi Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd.

- Cynnal cronfa ddata gyfredol o'r holl sefydliadau bwyd yn y Sir fel y gellir diffinio adnoddau yn effeithiol a'u defnyddio i gyrraedd targedau statudol, cenedlaethol a lleol arolygu, samplu, mentrau penodol a thasgau a bennwyd gan yr ASB, asiantaethau eraill, neu yn seiliedig ar angen lleol.

- Darparu Gwasanaeth Bwyd agored a thryloyw gyda llinellau cyfathrebu clir i bob defnyddiwr gwasanaeth.

3.6 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys proffiliau risg busnesau bwyd yn Sir y Fflint ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd ynghyd â nifer o arolygiadau a gynlluniwyd ar gyfer 2013/14. O ran porthiant, cofnodwyd mai dim ond un safle risg uchel a 238 o safleoedd risg ganolig oedd. Roedd cyfanswm o 24 o sefydliadau (10%) wedi'u targedau ar gyfer arolygiad.

***Sgoriau risg hylendid bwyd:***

| Categori risg | Cyfanswm y safleoedd | Arolygiadau Disgwyliedig |
|---|---|---|
| A | 4 | 4 |
| B | 65 | 64 |
| C | 589 | 335 |
| D | 255 | 210 |
| E | 499 | 383 |
| **Cyfanswm** | **1,412** | **996** |

***Sgoriau risg safonau bwyd:***

| Categori risg | Cyfanswm y safleoedd | Arolygiadau Disgwyliedig |
|---|---|---|
| Uchel | 10 | 10 |
| Canolig | 472 | 334 |
| Isel | 819 | 495 |
| Cyfanswm | 1,301 | 839 |

3.7 Dylai sefydliadau bwyd â chategori A ar gyfer hylendid bwyd fod yn destun ymyriadau o leiaf bob chwe mis a sefydliadau categori B bob 12 mis. A chymryd bod y sgoriau risg yn parhau i fod yn A a B, nifer yr ymyriadau categori A a chategori B disgwyliedig yn 2013/14 oedd 8 a 65 yn y drefn honno.

3.8 Yn 2013/14 roedd yr awdurdod yn bwriadu cynnal pob ymyriad hylendid bwyd a oedd yn ddisgwyliedig mewn sefydliadau risg uwch (categorïau A-C) a 30% o'r rheini a oedd yn ddisgwyliedig mewn sefydliadau categorïau D ac E. Roedd cynllun ar waith i sicrhau y byddai’r holl ymyriadau hylendid bwyd mewn sefydliadau bwyd risg is yn cael eu cwblhau mewn 3 blynedd. O ran safonau bwyd, roedd arolygiadau mewn

100% o'r sefydliadau risg uchel a 30% o'r sefydliadau risg ganolig wedi'u cynllunio.

3.9 Roedd y gwaith o arolygu busnesau newydd ac ailymweld â phob safle a oedd yn cael sgôr y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol o ddau neu is wedi'u nodi fel amcanion allweddol ar gyfer 2013/14. Fodd bynnag nid oedd amcangyfrif o'r adnoddau a oedd yn angenrheidiol i'w cyflawni wedi cael ei nodi.

3.10 Nodwyd bod 42 o weithgynhyrchwyr bwyd a phecynwyr yn Sir y Fflint yn amrywio o weithgynhyrchwyr cig wedi'i goginio a phrydau parod gyda dosbarthiad cenedlaethol i gwmni pasteureiddio llaeth ar y fferm a oedd yn cyflenwi'r ardal leol. Nid oedd nifer y safleoedd cynnyrch-benodol yn ardal yr awdurdod wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth yn groes i ofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

3.11 Nodwyd manylion y trefniadau ar gyfer bwyd a samplu bwyd yn y Cynllun Gwasanaeth. Mae'r awdurdod yn perthyn i Grŵp Cysylltu Bwyd y Gogledd-orllewin a Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru. Datblygwyd ei raglen samplu gan roi ystyriaeth i'r blaenoriaethau a nodwyd gan y grwpiau hyn yn ogystal â blaenoriaethau a nodwyd gan yr ASB ac anghenion lleol.

3.12 Roedd yr awdurdod yn ymrwymedig i wella cysylltiadau â busnesau lleol, gan roi gwasanaeth cyngor a chymorth effeithiol ac ymatebol iddynt. Dangoswyd yr ymrwymiad hwn drwy ei gyfranogiad yng Nghynlluniau'r Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref.

3.13 Nodwyd y trefniadau ar gyfer monitro'n fewnol yr *'asesiad o ansawdd'* yn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd ac roeddent yn cynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau. Nid oedd trefniadau monitro mewnol ar gyfer y gwasanaeth porthiant wedi'u cynnwys.

3.14 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn darparu manylion am y staff a oedd ar gael ar gyfer gorfodi bwyd a phorthiant ond nid oedd yn nodi'r adnoddau gwirioneddol a oedd yn angenrheidiol er mwyn darparu'r gwasanaeth.

3.15 Er bod y gost o ddarparu gwasanaeth hylendid a safonau bwyd wedi'i nodi yn y Cynllun Gwasanaeth, ni ddarparwyd yr wybodaeth hon ar gyfer porthiant.

3.16 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys adolygiad o berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad 2012/13 a manylion am gyflawniadau'r gwasanaeth. Amlygwyd meysydd ar gyfer gwella gwasanaethau hefyd a oedd yn cynnwys:

- Cynyddu nifer yr arolygiadau hylendid bwyd a gynhaliwyd ar safleoedd â sgôr D ac E er mwyn cyflawni 30% yn 2013/14.
- Cynyddu nifer yr arolygiadau safonau bwyd risg ganolig i gyflawni 30% yn 2013/14.
- Hyrwyddo'r llyfryn ‘Food Safety on a Budget’ i grwpiau rhieni a phlant bach.
- Datblygu'r cydweithrediad ag aber Afon Dyfrdwy i wella dulliau gorfodi mewn perthynas â chasglu pysgod cregyn.
- Sgorio risg busnesau newydd er mwyn nodi'r rhai a ddylai gael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiad.

3.17 Yn ogystal â'r Cynllun Gwasanaeth, roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Gweithredu Uno Safonau Bwyd/Diogelwch Bwyd a Chynllun Gweithredu Bwydydd Anifeiliaid. Goruchwyliwyd y gwaith o gyflawni'r Cynlluniau Gweithredu hyn gan y Rheolwr Diogelu Iechyd.

***Argymhellion***

3.18 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau y datblygir Cynlluniau Gwasanaeth Bwyd a Phorthiant y dyfodol yn unol â Chanllawiau Cynllunio'r Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Dylai gwybodaeth fwy manwl ar wasanaeth porthiant yr awdurdod gael ei darparu ynghyd â dadansoddiad cadarn o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau bwyd a phorthiant yn erbyn y rhai sydd ar gael. [Y Safon – 3.1]

(ii) Mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau o ran cyflawni cynllun darparu'r gwasanaeth porthiant mewn cynlluniau gwasanaeth dilynol. [Y Safon – 3.3]

## 4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig

4.1 Roedd gan yr awdurdod weithdrefnau rheoli dogfennau ffurfiol ar waith ar gyfer diogelwch, safonau a phorthiant bwyd. Roedd dogfennau rheoledig yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau a dogfennau gwaith eraill, er enghraifft, cynlluniau gwasanaeth, cynlluniau arolygu ac amserlennu monitro mewnol.

4.2 Roedd dogfennau dan reolaeth wedi cael eu diogelu gan gyfrinair a'u storio'n electronig ar yriant a rennir. Roedd copïau caled hefyd ar gael yn y Llawlyfrau Gweithdrefnau a gaiff eu storio yn y swyddfeydd Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach. Cyfrifoldeb Arweinwyr Tîm oedd datblygu gweithdrefnau newydd, diweddaru gweithdrefnau presennol a sicrhau bod dogfennau a ddisodlwyd yn cael eu dileu.

4.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ystod o bolisïau a gweithdrefnau cofnodedig mewn cysylltiad â gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant. Roedd rhai ohonynt wedi cael eu seilio ar dempledi a gynhyrchwyd ar y cyd gan Benaethiaid Panel Technegol Diogelwch Bwyd Iechyd yr Amgylchedd Cymru (WHoEH), ac roedd eraill yn benodol i Sir y Fflint. Darparwyd ymrwymiad gan yr awdurdod i adolygu polisïau a gweithdrefnau a gynhyrchir yn fewnol bob 5 mlynedd o leiaf a phryd bynnag y byddai newidiadau i ddeddfwriaeth/canllawiau.

4.4 Roedd yn amlwg bod polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu'n gyson. Ni chanfuwyd unrhyw ddogfennau a oedd wedi cael eu disodli yn ystod yr archwiliad.

## 5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd cynllun dirprwyo'r awdurdod wedi cael ei nodi yn ei Gyfansoddiad ac roedd yn rhoi pwerau dirprwyedig i Reolwr Diogelu'r Cyhoedd Dros Dro i awdurdodi swyddogion. Roedd system gyffredinol o ddirprwyo pwerau i bob Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth Gwasanaeth, ac roedd yr awdurdod yn gallu cyflwyno tystiolaeth yn nodi bod y cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn 2009 ac wedi cael ei ddiweddaru yn 2013.

5.2 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn gofnodedig yn seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer awdurdodi swyddogion bwyd a phorthiant. Roedd yr awdurdod hefyd yn cynnal matrics yn nodi'r cymwyseddau a oedd yn ofynnol gan swyddogion bwyd a phorthiant.

5.3 Roedd system arfarnu perfformiad staff ar waith a oedd yn llywio cynlluniau dysgu a datblygu swyddogion. Ym marn yr archwilwyr roedd y cynlluniau hyn yn benodedig, ac yn ymgorffori blaenoriaethau gweithredol ac anghenion hyfforddi unigol allweddol. Roedd gan yr awdurdod weithdrefnau hyfforddi ar gyfer diogelwch bwyd, safonau bwyd a swyddogion porthiant.

5.4 Roedd yr awdurdod wedi penodi swyddog arweiniol ar gyfer hylendid bwyd, clefydau trosglwyddadwy a safonau bwyd a swyddog arweiniol ar gyfer hylendid bwyd. Roedd gan y swyddogion arweiniol yr wybodaeth arbenigol, y cymwysterau a'r hyfforddiant angenrheidiol.

5.5 Hysbyswyd yr archwilwyr fod pedwar swyddog sydd wedi'u secondio ar hyn o bryd o'r tîm diogelwch bwyd wedi cadw eu hawdurdodiadau llawn ar gyfer gwaith hylendid a safonau bwyd. Ystyriodd yr archwilwyr fod hyn yn foddhaol, yn ddarostyngedig i gymhwyso darpariaethau'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a gweithdrefnau'r Awdurdod ei hun ar awdurdodi a hyfforddi.

5.6 Roedd yr awdurdod yn cyflogi 17 o swyddogion yn y gwasanaethau hylendid bwyd, safonau bwyd a hylendid porthiant. Archwiliwyd awdurdodiadau, asesiadau cymhwysedd, cymhwyster a chofnodion hyfforddi deg swyddog a oedd yn gysylltiedig â chyflwyno rheolaethau swyddogol yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.

5.7 Cyflwynodd pob swyddog a archwiliwyd dystiolaeth o gymwysterau a oedd yn gyson â'u hawdurdodiadau. Cafodd hyfforddiant ar gysondeb safonau bwyd ei raglennu ar gyfer pob aelod o'r staff gorfodi bwyd ar gyfer y cyfnod 2013/14 fel rhan o strategaeth yr awdurdod i ddefnyddio swyddogion gorfodi hylendid i gynnal gwaith safonau bwyd risg is.

5.8 Nid oedd yr awdurdod wedi awdurdodi swyddogion i gyflawni dyletswyddau o dan nifer o offerynnau statudol perthnasol. Darparwyd manylion am yr hepgoriadau hyn i'r Rheolwr Diogelu Iechyd.

5.9 Nodwyd y materion canlynol hefyd yn ymwneud ag awdurdodiadau:

- Ni chafodd unrhyw swyddogion safonau bwyd na phorthiant eu hawdurdodi o dan Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 na Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011. Nodwyd, fodd bynnag, bod Arweinydd y Tîm (Safonau a Hylendid Bwyd) wedi cael ei awdurdodi o dan y ddeddfwriaeth hon.

- Ni chafodd pedwar swyddog hylendid bwyd eu hawdurdodi o dan reoliad 14 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, gan eu gadael heb unrhyw bwerau mynediad o dan y rheoliadau hyn.

- Roedd angen gwneud mân ddiwygiadau i awdurdodiadau swyddogion mewn perthynas â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru).

5.10 Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau o’r cofnodion a oedd ar gael bod yr holl swyddogion a wiriwyd wedi derbyn yr isafswm o 10 awr o hyfforddiant cyfredol, gan gynnwys, lle bo’n briodol, hyfforddiant cysondeb ar gymhwyso sgoriau risg hylendid bwyd a hyfforddiant yr Asiantaeth ar reoli croeshalogi. Fodd bynnag, o ran pedwar swyddog, roedd cofnodion yn awgrymu y rhoddwyd rhagor o hyfforddiant o ran pa dystysgrifau oedd ddim ar gael.

5.11 Roedd gallu swyddogion i gyflwyno’r ystod o reolaethau swyddogol ar borthiant yn unol â’r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant wedi’i drafod gyda rheolwyr, a nodwyd yr angen i nodi’r adnoddau angenrheidiol yn erbyn y rheiny a oedd ar gael yn unol ag argymhellilad 3.18(i) fel blaenoriaeth.

***Argymhellion***

5.12 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu a diweddaru awdurdodiadau swyddogion er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant, eu profiad a'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.3]

| | |
|---|---|
| (ii) | Cynnal cofnodion o hyfforddiant yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5] |

## 6 Cyfleusterau a Chyfarpar

6.1 Roedd gan yr awdurdod y cyfleusterau a'r cyfarpar angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn effeithiol, ac am gynnal gweithgareddau samplu porthiant anifeiliaid, a oedd yn cael eu storio'n briodol ac ar gael i swyddogion perthnasol.

6.2 Mae gweithdrefn ar gyfer cynnal a chadw a graddnodi cyfarpar wedi cael ei datblygu er mwyn sicrhau bod pethau fel thermomedrau yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, yn cael eu graddnodi yn ôl yr angen ac yn cael eu dileu o'r gwasanaeth os ydynt yn ddiffygiol. Roedd y weithdrefn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd yn angenrheidiol, fodd bynnag, ni nodwyd y goddefaint o ran graddnodi.

6.3 Lle y bo'n briodol, cafodd cyfarpar a neilltuwyd i swyddogion awdurdodedig ei raddnodi bob blwyddyn ac roedd y cofnodion graddnodi yn cael eu cynnal a chyfarpar diffygiol yn cael ei waredu. Mae swyddogion wedi cael dyfeisiau golau is-goch/chwilio defnydd deuol a thermomedrau chwiliedyddion unigol. Roedd thermomedr cyfeirio a chapiau profi hunan-raddnodedig yn cael eu defnyddio ar gyfer graddnodi.

6.4 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â'r thermomedr cyfeirio, y cap prawf 63ºC, y cofnodwr data a phob un o'r thermomedr golau is-goch a'r thermomedrau chwilio unigol. Yn gyffredinol, roedd gan gyfarpar monitro tymheredd a ddefnyddid at ddibenion gorfodi dystysgrifau graddnodi dilys ac roedd cofnodion graddnodi priodol wedi cael eu cadw. Nid oedd tystysgrif raddnodi ar gael ar gyfer y cofnodwr data, ond, hysbyswyd yr archwilwyr fod y ddyfais hon yn newydd a bod cyfnod gwarantu'r gweithgynhyrchydd o ran cywirdeb yn gymwys o hyd.

6.5 Canfuwyd bod pob dyfais golau is-goch/chwilio o fewn y goddefiant o ran tymheredd a nodir mewn canllawiau a ddosbarthwyd yn ganolog. Roedd angen newid y weithdrefn graddnodi i adlewyrchu gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd mewn perthynas â'r goddefiant o ran graddnodi.

6.6 Roedd gweithdrefn ar gael i gynnal a chadw a graddnodi cyfarpar pwyso a ddefnyddir wrth samplu porthiant. Profwyd y cyfarpar cyn samplu, ar y safle ac ar ôl dychwelyd i'r swyddfa. Gan na samplwyd unrhyw borthiant, ni archwiliwyd unrhyw gofnodion cyfarpar pwyso samplu porthiant.

6.7 Roedd cronfeydd data bwyd a phorthiant yr awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth a oedd yn ofynnol gan yr ASB. Cynhaliwyd nifer o wiriadau yn ystod yr archwiliad a gadarnhaodd fod cronfeydd data yn cael eu gweithredu mewn ffordd a oedd yn golygu y gallai adroddiadau cywir gael eu llunio. Mae'r arfer o godio ymyriadau safonau bwyd heblaw

arolygiadau fel arolygiadau wedi cael ei nodi o ganlyniad i waith monitro mewnol gan yr Arweinydd Tîm ac mae camau unioni wedi'u cymryd.

6.8 Roedd copïau wrth gefn o'r cronfeydd data bwyd a phorthiant ynghyd â dogfennau electronig eraill a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant yn cael eu cadw'n rheolaidd er mwyn osgoi colli data.

6.9 Roedd gan yr awdurdod Ddatganiad Polisi ar Ddiogelwch Gwybodaeth er mwyn sicrhau parhad busnes a lleihau niwed drwy atal neu leihau effaith digwyddiadau diogelwch. Mewn perthynas â gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant, roedd swyddogion wedi cael cyfrineiriau unigol, roedd mynediad cyfyngedig ar gyfer cofnodi a dileu data, roedd protocolau mewnbynnu data cofnodedig wedi cael eu datblygu ac roedd staff wedi cael eu hyfforddi.

***Argymhelliad***

6.10 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu, diwygio a gweithredu’r weithdrefn a ddogfennir ar gyfer cynnal a chadw a graddnodi offer. [Y Safon – 6.2]

## 7 Ymyriadau ac Arolygiadau Sefydliadau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

***Hylendid bwyd***

7.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth Bwyd yr awdurdod ar gyfer 2013-14 yn nodi bod cyfanswm o 1,536 o safleoedd bwyd yn ei ardal, sy'n cynnwys tua 1,009 o arlwywyr, gyda'r gweddill yn cynnwys manwerthwyr yn bennaf.

7.2 Yn 2012/13 roedd yr awdurdod wedi cofnodi drwy System Monitro Dulliau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) fod 100% o'i fusnesau bwyd risg uwch wedi cael eu harolygu, h.y. y rhai â sgôr A-C, a bod 58.76% o fusnesau bwyd â sgôr A-E yr oedd disgwyl iddynt gael eu harolygu wedi cael eu harolygu. Roedd yn amlwg o'r data hwn bod yr awdurdod wedi mabwysiadu ymagwedd yn seiliedig ar risg i reoli ei raglen arolygu. Yn ystod y cyfnod hwn roedd 88.64% o fusnesau bwyd ar gronfa ddata'r awdurdod yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' â chyfraith hylendid bwyd (ac eithrio busnesau heb eu sgorio a'r rhai y tu allan i gwmpas y cynllun sgorio risg). Roedd hyn yn cynrychioli lleihad o tua 2.1% o 90.74% o fusnesau y cofnodwyd eu bod yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' yn ystod y flwyddyn flaenorol.

7.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ystod eang o weithdrefnau cofnodedig wedi'u hanelu at gadarnhau un dull yn unig o ymdrin â'r amrywiaeth o ymyriadau hylendid bwyd yr ymgymerwyd â hwy. Roedd y gweithdrefnau hyn yn cwmpasu arolygiadau bwyd, ailymweliadau, strategaethau gorfodi amgen a chymeradwyo sefydliadau cynnyrch-benodol, ac fe'u hategwyd gan weithdrefnau gweinyddol. Cadarnhaodd archwiliad o bob dogfen fod cyfeiriad wedi bod at ddeddfwriaeth berthnasol a bod pob un yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd yn ganolog.

7.4 Ar adeg yr archwiliad roedd cyfanswm o 542 o safleoedd lle dylid bod wedi cynnal arolygiad fwy na 28 diwrnod ynghynt, yr oedd 21 ohonynt yn rhai risg uwch. Roedd disgwyl i'r safleoedd risg uwch hyn fod wedi cael eu harolygu yn y ddau fis cyn yr archwiliad. Roedd gweddill yr arolygiadau hwyr yn ymwneud â safleoedd risg is.

7.5 Gwnaeth yr Arweinydd Tîm ar gyfer Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd hysbysu archwilwyr fod yr awdurdod wedi cyflwyno system ar gyfer rheoli ymyriadau mewn busnesau newydd mewn ffordd ragweithiol. Roedd y system yn cynnwys llunio adroddiad misol i nodi busnesau newydd ar gronfa ddata'r awdurdod a wedyn cysylltiad dros y ffôn â'r gweithredwr cofrestredig er mwyn nodi a blaenoriaethu’r rheiny lle’r oedd y risg fwyaf ar gyfer arolygiad.

7.6 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Taflenni Arolygu Hylendid Bwyd ar gyfer Safleoedd Arlwyo a Manwerthu, ac ar gyfer sefydliadau Nad oeddent yn Cynnig Gwasanaeth Arlwyo, a gafodd eu hadolygu ym mis Medi 2013 yn erbyn canllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Roedd aide memoire arolygu cyffredinol hefyd wedi'i lunio ar gyfer safleoedd cymeradwy, ac ar gyfer gweithgynhyrchwyr nad oeddent yn gorfod cael cymeradwyaeth.

7.7 Yn ystod yr archwiliad archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â 10 sefydliad bwyd. Cadarnhaodd eu hanesion arolygu eu bod, ar y cyfan, wedi cael eu harolygu ar yr adegau a oedd yn ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, nid oedd tri safle wedi cael eu harolygu ar yr adegau a oedd yn ofynnol, ac roedd dau ohonynt yn safleoedd lle roedd y risg yn uwch. Roedd y safleoedd lle roedd y risg yn uwch wedi cael eu harolygu fwy na phum mis ar ôl y dyddiad yr oedd disgwyl iddynt gael eu harolygu, ond roedd safle yng nghategori D yn dal i ddisgwyl cael ei arolygu bum mlynedd yn ddiweddarach. Mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn ei gwneud yn ofynnol i ymyriadau gael eu cynnal o fewn 28 diwrnod i'w dyddiad disgwyliedig.

7.8 Roedd cofnodion arolygu ar gael ac yn ddarllenadwy ar gyfer y 10 safle bwyd a archwiliwyd. Roedd yr wybodaeth a gofnodwyd gan swyddogion ar ffurflenni arolygu yn ddigon manwl ar y cyfan i ddangos bod asesiad o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, gan gynnwys gweithdrefnau yn seiliedig ar Ddadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP) wedi ei gynnal, a bod trafodaethau yn ymwneud â monitro Pwyntiau Rheoli Critigol (CCPs) wedi mynd rhagddynt. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i ddangos bod ystyriaeth wedi ei rhoi i fwydydd a fewnforir, ond nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod gwiriadau wedi eu cynnal, lle roedd hynny'n berthnasol, ar ffynhonnell marciau iechyd/adnabod ar ddeunyddiau craidd.

7.9 Mewn chwe achos, cadarnhaodd cofnodion fod swyddogion wedi cynnal asesiad priodol o effeithiolrwydd rheolaethau croeshalogi. Mewn dau achos, nid oedd y gweithrediadau yn y sefydliadau bwyd yn cynnwys trin bwydydd amrwd a bwydydd parod i'w bwyta ac yn y ddau achos arall, nid oedd y cofnodion yn ddigon manwl i ddangos bod swyddogion wedi ystyried yn llawn gydymffurfiaeth y busnes wrth ddiogelu bwyd rhag cael ei groeshalogi.

7.10 Roedd y sgoriau risg a gymhwyswyd at safleoedd yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiad ym mhob achos ond un lle, ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael, roedd sgôr anghywir mewn perthynas â defnyddwyr mewn perygl, wedi ei chymhwyso. Serch hynny, lle roedd y

sgôr anghywir hon wedi ei chymhwyso ni fyddai wedi newid y categori risg cyffredinol nac amlder yr ymyriadau.

7.11 Noda'r weithdrefn ar gyfer Ailymweliadau Hylendid Bwyd, "generally, any food business assessed as not being ‘broadly compliant’ with food hygiene legislation will be subject to a revisit.” Yn y 10 achos a archwiliwyd, nid oedd angen ailymweliadau ym mhedwar o'r safleoedd. Lle roedd angen ailymweliad, cadarnhaodd y dystiolaeth fod y rhain wedi eu cynnal mewn pum allan o'r chwe achos, er na chynhaliwyd dau o'r ailymweliadau hyn o fewn yr amserlen benodol.

7.12 Yn gyffredinol, roedd camau gorfodi priodol, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod, wedi eu cymryd gan swyddogion ym mhob achos lle nodwyd achos o ddiffyg cydymffurfio.

7.13 Archwiliwyd cofnodion 10 sefydliad cymeradwy. Roedd y cymeradwyaethau yn gyffredinol wedi'u rhoi mewn modd amserol a phriodol, er i archwilwyr nodi nad oedd ffurflenni cais ar gael mewn pedwar achos. Mewn achos aralll, roedd sefydliad wedi cael dau rif cymeradwyo ac mewn achos arall rhoddwyd cymeradwyaeth amodol ond nid oedd unrhyw gofnod bod hyn wedi cael ei hymestyn yn dilyn arolygiad o fewn tri mis. Ymddangosodd fod cymeradwyaeth lawn wedi cael ei rhoi, fodd bynnag, oherwydd oedi cyn anfon dogfennau a gwallau o ran dyddiadau, nid oedd y broses gymeradwyo yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Rhoddwyd hysbysiad cymeradwyo llawn i gywiro'r gwallau hyn bedwar mis ar ôl i gymeradwyaeth lawn gael ei rhoi yn ôl pob tebyg.

7.14 Cadarnhaodd yr hanesion arolygu nad oedd wyth allan o 10 o'r sefydliadau cymeradwy wedi cael eu harolygu ar yr adegau a oedd yn ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Y sefydliadau na chawsant eu harolygu ar yr adegau gofynnol oedd y rhai yng nghategorïau B, C ac E. Roedd yr arolygiadau ar gyfer dau ohonynt yn hwyr a hynny'n ddiweddar ac roedd gan saith ohonynt fylchau mawr rhwng arolygiadau blaenorol.

7.15 Roedd wyth allan o'r 10 sefydliad cymeradwy wedi cael eu sgorio'n gywir o ran risg yn yr arolygiad diwethaf er na fyddai'r gwallau sgorio ar gyfer y gweddill wedi newid y categori sgôr risg gyffredinol ar y pryd. Mewn un achos lle cafodd sefydliad sgôr is, ni chofnodwyd esboniad na chymeradwyaeth gan reolwyr ar y ffeil, yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.16 Roedd ffurflenni arolygu cynnyrch-benodol priodol wedi cael eu defnyddio gan swyddogion i gynnal arolygiadau mewn safleoedd cymeradwy mewn hanner o'r achosion. Yn yr hanner arall, cofnodwyd

nodiadau ar bapur llinellog. Ym mhob achos cofnodwyd cwmpas a chadarnhad gweithrediadau yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth a oedd yn ymwneud ag asesu pwyntiau rheoli critigol yn ddigonol mewn tri achos. Mewn pedair ffeil roedd yr wybodaeth yn ddigonol i ddangos bod asesiad effeithiol o hyfforddiant staff wedi'i gynnal, ond mewn dwy ffeil nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi. Yn y pedwar achos oedd yn weddill, roedd rhywfaint o wybodaeth yno ond roedd yn anghyflawn. Yn gyffredinol, nid oedd digon o wybodaeth i nodi bod marciau iechyd yn cael eu gwirio ar gynhwysion yn dod i mewn nac ar gynhyrchion yn mynd allan.

7.17 Roedd yr awdurdod wedi llunio Strategaeth Orfodi Amgen ar gyfer safleoedd categori E gyda nod datganedig i leihau nifer yr ymweliadau a wneir â busnesau bwyd risg isel. Roedd y dull gweithredu yn y strategaeth yn ddigonol i gasglu'r holl wybodaeth a oedd yn ofynnol i asesu a oedd angen ymweliad ymyrryd. Fodd bynnag, nododd archwilwyr nad oedd un o'r amcanion a restrir yn y strategaeth yn gyson â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, sef, 'the team will aim to undertake an alternative intervention in at least 20% of the total number of category E premises annually that are due for inspection'. Mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob safle, os na chaiff ei gynnwys yn y rhaglen arolygu arfaethedig, sydd â sgôr risg isel fabwysiadu strategaeth orfodi amgen o leiaf unwaith bob tair blynedd.

7.18 Er bod gan yr awdurdod Strategaeth Orfodi Amgen, nid oedd wedi cael ei rhoi ar waith. Gwnaeth yr Arweinydd Tîm ar gyfer Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd hysbysu archwilwyr nad oedd yr awdurdod yn bwriadu gweithredu'r strategaeth yn llawn nes bod pob busnes risg isel a gynhwysir yng nghwmpas y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd wedi cael ei arolygu a'i sgorio o ran risg.

***Argymhellion***

7.19 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod pob ymyriad/arolygiad hylendid bwyd yn cael ei gynnal ar yr adegau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid mewn safleoedd risg is yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.2]

(iii) Sicrhau bod arsylwadau a wneir a/neu ddata a gesglir yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol. [Y Safon – 7.5]

*Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

7.20 Yn ystod yr archwiliad, gwnaed ymweliadau dilysu â dau sefydliad bwyd gyda swyddogion awdurdodedig yr awdurdod a oedd wedi cynnal yr arolygiadau hylendid bwyd y tro diwethaf. Prif amcan yr ymweliadau oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth busnes bwyd â gofynion cyfraith bwyd.

7.21 Roedd y swyddogion yn hyddysg am y busnesau ac yn gallu cyfleu dealltwriaeth briodol o'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau ym mhob safle. Dangosodd y swyddogion eu bod wedi cynnal arolygiad trwyadl a'u bod, mewn ffordd briodol, wedi asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog, ac roeddent yn cynnig cyngor defnyddiol i'r gweithredwyr busnesau bwyd.

7.22 Roedd canfyddiadau'r arolygiad blaenorol wedi cael eu cofnodi’n briodol ac roedd cofnodion yn y ffeil yn adlewyrchu’r amodau a welwyd ar y safle. Lle bu angen gwneud hynny, roedd tystiolaeth bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd.

***Safonau bwyd***

7.23 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi safonau bwyd a oedd yn golygu bod angen i swyddogion gynnal arolygiadau dirybudd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nododd y polisi hefyd mai dim ond yn dilyn arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad y dylid sgorio risg y busnesau hynny.

7.24 Roedd ystod o weithdrefnau ymyriadau safonau bwyd a ddogfennir wedi’u datblygu. Fodd bynnag, nid oedd gan yr awdurdod bolisi ailymweld safonau bwyd.

7.25 Nid oedd yr awdurdod yn gweithredu Strategaeth Gorfodi Amgen ar gyfer safonau bwyd, gan ffafrio dull yn seiliedig ar arolygiad ac ymweliadau.

7.26 Nododd yr archwilwyr fod cynllun gweithredu ar waith i gynyddu capasiti’r Awdurdod i gynnal rheolaethau swyddogol ar safonau bwyd o fewn adnoddau sy'n bodoli eisoes i raddau helaeth.

7.27 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd asesiad o gofnodion a oedd yn ymwneud â naw sefydliad bwyd. Ni chafodd dau o’r rhain eu cynnwys mewn gwiriadau pellach gan fod un wedi’i godio’n anghywir fel un a oedd angen ei arolygu’n llawn ac roedd yr un arall yn fusnes pecynnu nid

busnes bwyd. Roedd ymyriad mewn sefydliad arall wedi'i godio'n anghywir fel arolygiad er gwaethaf sawl ymgais aflwyddiannus gan swyddogion i gael mynediad at y sefydliad. Gan fod y sefydliad wedi'i gofrestru er 2011, roedd yn destun rhagor o wiriadau.

7.28 Roedd y cofnodion yn ategu'r wybodaeth yn y cynllun gwasanaeth a nododd fod yr Awdurdod yn amlwg yn blaenoriaethu ymyriadau busnesau bwyd risg uchel. Fodd bynnag, roedd pump o'r saith sefydliad bwyd yn dal i ddisgwyl cael arolygiad. Cafodd un o'r rhain ei sgorio fel sefydliad risg uchel yn flaenorol (dau fis yn hwyr), gyda dau fel risg canolig (tri a thri mis a hanner yn hwyr) ac un yn risg isel (18 mis yn hwyr). Ni chafodd un o'r sefydliadau ei sgorio o ran risg.

7.29 Roedd arolygiadau wedi cael eu cyhoeddi, yn groes i'r Cod Ymarfer Bwyd a gweithdrefn ymyrryd yr awdurdod ei hun. Er i weithdrefn yr awdurdod ganiatáu ymyriadau lle rhoddwyd rhybudd mewn amgylchiadau eithriadol, nid oedd yr awdurdod wedi cofnodi'r rhesymau dros gyhoeddi arolygiadau yn y safleoedd a wiriwyd.

7.30 Roedd sgoriau risg safonau bwyd wedi cael eu dyfarnu yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, mewn tri achos, cafodd sefydliadau bwyd eu sgorio o ran risg heb iddynt gael eu hymweld.

7.31 Roedd arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiadau sefydliadau bwyd risg uchel wedi'u cofnodi'n addas. Nid oedd y cofnodion ar gyfer tri o'r pum busnes risg ganolig a risg isel i'r un safon, ac roedd methiant ym mhob achos i gofnodi gwybodaeth allweddol a oedd yn ofynnol i bennu ehangder yr asesiad â gofynion cyfreithiol, gan gynnwys maint a graddfa'r busnes, asesiad o unrhyw system rheoli ansawdd gofnodedig, dilysu rheolaethau olrhain busnes a threfniadau adalw cynnyrch/tynnu cynnyrch yn ôl.

7.32 Mae methu â chofnodi'r wybodaeth hon mewn modd amserol yn cyfyngu ar yr wybodaeth am y busnes y gellir ei rhoi i'r swyddog arolygu nesaf sydd, o bosibl, yn effeithio ar ddull hyddysg, graddedig yn seiliedig ar risg o ymdrin â gorfodi.

7.33 Lle roedd cofnodion ar gael roeddent yn ddarllenadwy ac yn adferadwy.

***Argymhellion***

7.34 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir pob ymyriad safonau bwyd ar adegau rheolaidd nad yw'n llai na'r hyn a bennir o dan y cynllun sgorio ymyrryd a nodir yn y

| | |
|---|---|
| | Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.1] |
| (ii) | Cynnal ymyriadau/arolygiadau a chofrestru sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer, a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.2] |
| (iii) | Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ailymweld gofnodedig ar gyfer safonau bwyd. [Y Safon – 7.4] |
| (iv) | Cofnodi arsylwadau a wnaed a/neu ddata a gafwyd yn ystod arolygiad/ymyriad mewn modd amserol er mwyn sicrhau nad yw gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] |

*Ymweliadau Dilysu*

7.35 Cynhaliwyd dau ymweliad dilysu gyda swyddogion safonau bwyd ar ddau safle gweithgynhyrchu bwyd. Dangosodd y swyddogion lefel dda o wybodaeth am y busnesau dan sylw ac roedd yr wybodaeth a gafwyd gan yr archwilwyr yn ystod yr ymweliadau yn ategu'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn dilyn gwirio'r ffeiliau.

***Porthiant***

7.36 Nododd Cynllun Gwasanaeth Bwyd yr awdurdod ar gyfer 2013-14 fod cyfanswm o 239 o sefydliadau porthiant yn ei ardal yn destun ymyriadau porthiant; 1 risg uchel a 238 risg ganolig. Adroddodd yr awdurdod mewn gwybodaeth cyn yr archwiliad fod 243 o sefydliadau porthiant yn bodoli lle’r oedd 16 o'r rhain wedi cael sgôr risg ar gyfer safle porthiant.

7.37 Nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth y byddai 24 o arolygiadau risg ganolig yn cael eu cynnal yn 2013/14. Nid oedd unrhyw ymrwymiad i arolygu'r sefydliad risg uchel. Er mai dim ond 16 o sefydliadau risg ganolig oedd ar y gronfa ddata, nid oedd y rhaglen o 24 o arolygiadau a gynlluniwyd ar gyfer 2013/14 yn ddigon i gydymffurfio â Chod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant (FLECP).

7.38 Yn ôl y rhestr o sefydliadau porthiant a ddarparwyd cyn yr archwiliad, dylid bod wedi cynnal arolygiad eisoes mewn o leiaf 119 ohonynt ac nid oedd 227 wedi cael eu sgorio o ran risg. Mewn perthynas â’r ffeiliau a ddewiswyd ar gyfer archwiliad, roedd arolygiad y sefydliad risg uchel 2½ blynedd yn hwyr ac roedd arolygiad pump safle risg ganolig rhwng 5 mis a 7 mlynedd yn hwyr.

7.39 Nododd yr archwilwyr fod rhywfaint o gynnydd yn ddiweddar wedi'i wneud i wella cywirdeb y gronfa ddata porthiant. Ar ddechrau 2013 gwnaed cryn ymdrech i annog ffermydd i gofrestru. Mae'r fenter hon wedi arwain at nodi sefydliadau pellach a chynnydd yn nifer y sefydliadau ar y gronfa ddata ers i'r cynllun gwasanaeth gael ei ysgrifennu. Roedd yr ymatebion a wnaed i ymgyrch bostio hefyd wedi rhoi gwybodaeth am natur y gweithgareddau porthiant a gynhelir yn y safleoedd hyn sydd newydd gael eu cofrestru. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu dull yn seiliedig ar risg a nodi'r busnesau hynny nas sgoriwyd a ddylai gael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiad. Nododd yr archwilwyr nifer o safleoedd nas sgoriwyd a oedd wedi'u cofrestru fel gweithgynhyrchwyr porthiant (Codau R1-R4) a ddylai gael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiad.

7.40 Yn 2012/13 adroddodd yr awdurdod yn ei ffurflen porthiant flynyddol i'r ASB nad oedd unrhyw arolygiadau porthiant wedi eu cynnal. Yn ôl y gronfa ddata cynhaliwyd dau arolygiad porthiant yn ystod y cyfnod hwnnw.

7.41 Roedd yr awdurdod wedi mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer arolygiadau porthiant a oedd yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd y weithdrefn yn caniatáu i'r sgoriau risg gael eu newid yn dibynnu ar yr wybodaeth a gasglwyd o gwynion neu ganlyniadau samplu. Dylid nodi mai dim ond yn dilyn arolygiad sylfaenol yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd y gellir newid sgoriau risg.

7.42 Cyfeiriodd y weithdrefn at y defnydd o'r Adroddiad Safleoedd Busnes Porthiant ar gyfer cofnodi arolygiadau. Mae'r ddogfen hon, a geir yn Atodiad 6 o'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd yn rhestr o faterion y mae angen ei chynnwys mewn adroddiadau i fusnesau porthiant ac efallai na fydd yn addas ar gyfer casglu'r holl wybodaeth ofynnol yn ystod arolygiadau. Mae'r ASB wedi datblygu cyfres o ffurflenni ar gyfer cofnodi gwybodaeth a gasglwyd yn ystod arolygiadau o fusnesau porthiant. P'un a gaiff y ffurflenni hyn neu unrhyw ffurflenni eraill eu defnyddio, dylent fod yn addas i gasglu digon o wybodaeth i lywio dull graddedig o ymdrin â gorfodi a dylai'r weithdrefn gyfeirio at y ffurflenni priodol.

7.43 Ni chofnodwyd unrhyw bolisi na gweithdrefn ar y defnydd o Strategaethau Gorfodi Amgen mewn sefydliadau porthiant nac ar gyfer cynnal ailymweliadau neu ymweliadau eilaidd i gadarnhau cydymffurfiaeth lle y nodwyd achosion o fethu â chydymffurfio.

7.44 Cynhaliwyd gwiriadau o ffeiliau wyth sefydliad a fu'n destun arolygiad yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Roedd dau sefydliad arall a oedd wedi

cael eu dewis er mwyn gwirio ei ffeiliau wedi cael ei gamgodio gan fod dim arolygiadau wedi cael eu cynnal. Cafodd ei sefydlu nad oedd un o’r sefydliadau hyn wedi cynhyrchu porthiant erioed.

7.45 Roedd pob un o’r deg sefydliad wedi cael eu cofrestru, gan gynnwys y sefydliad nad oedd erioed wedi cynhyrchu porthiant a thair archfarchnad. Mewn chwe achos roedd dyddiad derbyn y ffurflen gofrestru ar gael. Hysbyswyd yr archwilwyr nad oes un o'r archfarchnadoedd yn cyflenwi bwyd gwastraff ar gyfer porthiant ac mai dim ond at fanwerthu bwyd anifeiliaid anwes yr oedd yr arolygiadau'n cyfeirio. Mae'r gweithgarwch hwn wedi'i eithrio rhag cofrestru o dan y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd. Roedd un safle arall, bragwr a oedd yn cynhyrchu grawn ar gyfer fferm leol wedi cael ei gofrestru'n anghywir fel cyflenwr porthiant cyffredinol yn hytrach na chyflenwr cyd-gynhyrchion y diwydiant bwyd.

7.46 Roedd cofnodion yr wyth sefydliad porthiant a arolygwyd yn cadarnhau bod arolygiadau wedi cael eu cynnal gan swyddogion cymwys ac awdurdodedig. Roedd saith wedi cael eu sgorio'n gywir o ran risg. Yr eithriad oedd y bragwr lle y byddai’r sgôr ychwanegol wedi codi’r sgôr risg o risg isel i risg ganolig. Yn gyffredinol, ni chynhaliwyd arolygiadau ar yr adegau gofynnol.

7.47 Roedd cofnod o arolygiadau ar gael mewn perthynas â dim ond un o’r arolygiadau lle roedd ffurflen arolygu'r ASB wedi cael ei defnyddio. Nid oedd yr wybodaeth am yr arolygiad mewn perthynas â’r saith sefydliad arall yn ddigon i helpu i lywio arolygiadau dilynol, nac i sicrhau dull graddedig a chyson o orfodi na dull monitro mewnol effeithiol.

7.48 Nid oedd yn bosibl yn gyffredinol i gadarnhau nac asesu cwmpas yr arolygiadau nac ychwaith fod arolygiadau priodol wedi eu cynnal ym mhob achos ond un, am nad oedd swyddogion wedi cofnodi digon o fanylion. Mae absenoldeb cofnodion heblaw am wybodaeth gyfyngedig ar y gronfa ddata yn golygu nad oedd saith o'r wyth ffeil a archwiliwyd yn cynnwys maint a graddfa na'r math o fusnes, gwybodaeth am HACCP, hyfforddiant, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad, cyflenwyr na dull olrhain.

7.49 Ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu dilynol mewn perthynas ag unrhyw un o'r sefydliadau. Fodd bynnag, ar wahân i un achos, lle nad oedd angen cymryd camau gweithredu, nid oedd yn bosibl penderfynu o’r cofnodion a oedd a oedd angen camau dilynol.

***Argymhellion***

7.50 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau sefydliadau porthiant yn cael eu cynnal ar yr adegau sy'n ofynnol yn ôl Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal arolygiadau/ymyriadau a chymeradwyo neu gofrestru sefydliadau porthiant yn unol â deddfwriaeth berthnasol a Chod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.2]

(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer y Strategaeth Orfodi Amgen ac ailymweliadau a diwygio'r weithdrefn ar gyfer arolygiadau porthiant yn ymwneud â'r defnydd o ffurflenni arolygu priodol a sgorio risg. [Y Safon – 7.4]

(iv) Cofnodi arsylwadau a data a gafwyd o ymyriadau mewn dull amserol er mwyn sicrhau na chânt eu colli a sicrhau bod cofnodion cyfoes yn ddarllenadwy ac adferadwy. [Y Safon – 7.5]

*Ymweliad Dilysu Sefydliadau Porthiant*

7.51 Yn ystod yr archwiliad, gwnaed ymweliad dilysu â busnes porthiant gydag un o swyddogion awdurdodedig yr awdurdod, a oedd wedi cynnal arolygiad porthant diwethaf y sefydliad. Nod yr ymweliad oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth busnes porthiant â gofynion cyfraith porthiant.

7.52 Daeth yn amlwg bod y swyddog yn ddigon cymwys i gynnal arolygiad porthiant trylwyr a dangosodd ei fod yn meddu ar ddigon o wybodaeth am y safle a'r gweithrediadau a gynhaliwyd. Amlygodd yr ymweliad fater a nodwyd gan y gwiriad o'r ffeiliau yn ymwneud ag ychwanegu gweithredwr busnes porthiant cofrestredig (FeBO) ond ni chynhaliwyd unrhyw broses ailgofrestru. Nid oedd unrhyw nodiadau arolygu cyfoes ar gael felly nid oedd yn bosibl cadarnhau cwmpas na dyfnder yr arolygiad a gynhaliwyd. Roedd yr arolygiad wedi ei gynnal tua 3½ blynedd cyn yr archwiliad ac roedd gweithgareddau'r busnes wedi newid yn sylweddol yn ôl y gweithredwr busnes bwyd, gan gynnwys ehangu er mwyn allforio porthiant i drydedd wlad. Dangosodd cyflwr ffisegol yr amgylchedd prosesu y gallai achosion posibl o fynd yn groes i ddeddfwriaeth hylendid porthiant fodoli. Roedd newidiadau i'r gweithgareddau a oedd

yn cael eu cynnal a chyflwr ffisegol yr amgylchedd prosesu yn ategu canfyddiadau'r gwiriad o'r ffeiliau – sef y dylid cynnal arolygiad sylfaenol. Nid oedd unrhyw restrau o gynnyrch nac enghreifftiau o labeli ar gael ar y ffeiliau ac argymhellwyd y dylid sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael yn ystod yr arolygiad nesaf.

## 8 Cwynion am Fwyd, Porthiant a Sefydliadau Bwyd

8.1 Roedd gan yr awdurdod bolisi a gweithdrefn gofnodedig ar gyfer delio â chwynion am fwyd a chwynion am safleoedd bwyd cysylltiedig. Roedd y gweithdrefn yn cynnwys manylion penodol mewn perthynas â bwyd wedi’i fewnforio ond cyfeiriad cyfyngedig i gwnion am borthiant.

8.2 Roedd y targed ar gyfer amser ymateb i gwynion wedi'i nodi'n glir yn y weithdrefn fel pum diwrnod.

8.3 Gofynnwyd am gofnodion 10 cwyn yn ymwneud â hylendid bwyd a 10 yn ymwneud â safonau bwyd er mwyn eu harchwilio. Dywedwyd wrth archwilwyr nad oedd unrhyw gwynion wedi'u derbyn am borthiant yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

### *Hylendid Bwyd*

8.4 Roedd cofnodion cwynion wedi'u cadw ar gronfa ddata'r safle bwyd a/neu yn ffeiliau'r safle. Roedd yr wybodaeth am gwynion yn gynhwysfawr ar y cyfan yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog.

8.5 Roedd yr awdurdod wedi ymchwilio i saith cwyn allan o 10. Aseswyd dau fel rhai nad oedd angen eu hymchwilio ac roedd un dal yn cael ei ymchwilio. Mewn un achos roedd 4 wythnos o oedi wedi bod cyn cysylltu â'r cyflenwr bwyd ac ni chysylltwyd â'r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref na'r Awdurdod Gwreiddiol. Mewn achos arall roedd yr ymchwiliad wedi ei ohirio a oedd yn golygu na chyrhaeddwyd y targed o ran amser ymateb.

8.6 Nid oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn unrhyw un o'r achosion, ond mewn un achos bu'n rhaid hysbysu'r ASB ac roedd hyn wedi cael ei wneud.

8.7 Ym mhob achos ond dau, roedd y partïon priodol wedi cael eu hysbysu am ganlyniadau'r ymchwiliadau.

8.8 Darparodd y gwiriadau o'r ffeiliau dystiolaeth fod gwaith monitro mewnol wedi cael ei gynnal ar ymchwiliadau i gwynion a bod materion a nodwyd gan archwilwyr wedi cael eu nodi’n gyffredinol gan Arweinydd y Tîm. Roedd adborth priodol ar fonitro cwynion yn fewnol wedi cael ei ddarparu i swyddogion.

### *Safonau Bwyd*

8.9 Roedd gwybodaeth am gwynion gan gynnwys manylion am yr achwynydd, y bwyd a'r sefydliad bwyd cysylltiedig wedi cael ei chofnodi ar gronfa ddata'r awdurdod ym mhob achos.

8.10 Ymatebwyd i bob un o'r cwynion heblaw tair o fewn y targed o ran amser ymateb. Mewn dau achos, yn ymwneud â dilysrwydd cig, nid oedd unrhyw gofnodion o ymchwiliadau. Yn yr achos a oedd yn weddill, roedd rhybudd am alergedd wedi ei dderbyn ar ddiwedd mis Rhagfyr 2012 yn ymwneud â chynnyrch a gyflenwyd gan y Prif Awdurdod. Nid oedd cofnodion o unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd i ymchwilio i'r gŵyn gyda'r partner-gwmni tan y mis Chwefror canlynol.

8.11 Yn y mwyafrif o achosion, roedd yr holl wybodaeth am gwynion wedi ei chadw yn y cofnodion cwynion. Fodd bynnag, mewn un achos, roedd diffyg cofnodion yn y ffeil neu yn y gronfa ddata yn ei gwneud yn anodd penderfynu a oedd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau ac os felly, bod yr achwynydd wedi cael ei hysbysu am ganlyniad yr ymchwiliad.

***Argymhellion***

8.12 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu a diweddaru'r weithdrefn gofnodedig er mwyn rhoi canllawiau cynhwysfawr i swyddogion ar ymchwilio i gwynion am borthiant. [Y Safon – 8.1]

(ii) Ymchwilio i bob cwyn am fwyd a dderbynnir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2]

## 9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Nodwyd ymrwymiad yr awdurdod i Gynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd.

9.2 Roedd gweithdrefn wedi cael ei datblygu i ddarparu canllawiau i swyddogion a oedd yn delio â busnesau oedd â Phartneriaethau Prif Awdurod ag awdurdodau eraill. Roedd y busnesau hyn wedi cael eu hamlygu ar gronfa ddata'r safleoedd bwyd. Roedd gweithdrefnau hefyd wedi cael eu datblygu i helpu swyddogion os oedd yr awdurdod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref/Gwreiddiol neu Brif Awdurdod.

9.3 Roedd yr awdurdod wedi cytuno i weithredu fel Prif Awdurdod ar gyfer manwerthwr bwyd cenedlaethol ac roedd Cytundeb Prif Awdurdod ar waith. Roedd cofnodion manwl o gysylltiadau â'r cwmni ac awdurdodau eraill yn cael eu cadw.

9.4 Roedd yr awdurdod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref i fusnesau bwyd yn yr ardal. Dangosodd y cofnodion a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad fod yr awdurdod yn darparu cyngor cywir ac amserol i fusnesau a'i fod wedi ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol eraill.

9.5 Roedd ystyriaethau Prif Awdurdod wedi cael eu cynnwys mewn rhai gweithdrefnau gwaith, er enghraifft gweithdrefnau gorfodi. Yn ogystal, roedd gan swyddogion fynediad i wefan y Prif Awdurdod a chronfa ddata'r Awdurdod Cartref ac felly gallai nodi cysylltiadau'r Prif Awdurdod a'r Awdurdod Cartref a'r awdurdod lleol. Roedd yr archwilwyr yn gallu dangos bod yr awdurdod, fel awdurdod gorfodi yn ystyried materion y Prif Awdurdod.

## 10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu cyngor hylendid bwyd, safonau bwyd a phorthiant i fusnesau. Roedd tystiolaeth fod cyngor wedi ei roi i fusnesau yn ystod arolygiadau hefyd ar gais.

10.2 Yn 2013 roedd ymgyrch i hyrwyddo cofrestru busnesau bwyd wedi cael ei lansio. Roedd posteri wedi cael eu datblygu ac ymgyrch bostio wedi targedu tua 700 o ddarpar fusnesau porthiant. Roedd pecyn gwybodaeth holi ac ateb i fusnesau porthiant hefyd wedi cael ei ddatblygu. Llwyddodd yr ymgyrch i nodi busnesau porthiant newydd a gafodd eu cofnodi ar gronfa ddata sefydliadau porthiant yr awdurdod ar gyfer ymyriadau.

10.3 Rhoddwyd cyngor technegol i fusnesau a gweithredodd fel Prif Awdurdod ac Awdurdod Cartref.

10.4 Roedd yr awdurdod wedi llunio ymgyrch bostio wedi'i thargedu ac wedi anfon llythyr i fusnesau bwyd sy'n trin bwydydd amrwd a bwydydd parod i fwyta i'w hysbysu am reoli achosion o groeshalogi. Mae siopau cig a delicatessen, gwestai a busnesau eraill y gwyddom eu bod yn defnyddio system pacio dan wactod neu vac-packers wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer y cyngor hwn.

10.5 Mae pob busnes bwyd wedi cael hysbysiad ysgrifenedig o'r ffaith y bydd yn ofynnol iddynt arddangos sgoriau hylendid bwyd yn orfodol.

10.6 Roedd yr awdurdod wedi elwa ar arian grant yr ASB i helpu busnesau i ddatblygu eu systemau rheoli diogelwch bwyd. Roedd busnesau y nodwyd bod angen cymorth pellach arnynt wedi cael eu targedu ar gyfer ymweliadau hyfforddi.

10.7 Roedd cais ariannu ar y cyd gydag awdurdod cyfagos i ddarparu hyfforddiant hylendid bwyd mewn Cantoneg wedi bod yn llwyddiannus a threfnwyd yr hyfforddiant ar gyfer Tachwedd 2013.

10.8 Gwnaeth swyddog o'r tîm bwyd helpu i gyflwyno'r hyfforddiant a ddarparwyd gan yr awdurdod i fasnachwyr y farchnad. Roedd y cwrs 'Cyflwyniad i Fasnachwyr y Farchnad' yn gyfle i helpu masnachwyr y farchnad i gydymffurfio â chyfraith bwyd. At hynny, cyflwynodd yr Arweinydd Tîm gyflwyniad – "Cynnal eich Sgôr Hylendid Bwyd" mewn Cynhadledd Lletygarwch yn 2013.

10.9 Roedd masnachwyr yn Ffair Fwyd yr Wyddgrug a gynhelir bob blwyddyn wedi cael pecyn Cyngor i Fasnachwyr cyn y digwyddiad. Ynddo roedd cyngor ar hylendid bwyd a safonau bwyd. Hefyd, gwnaeth swyddogion

weithio ar stondin dros benwythnos y digwyddiad yn darparu gwybodaeth a chyngor ar hylendid bwyd a safonau bwyd.

10.10 Er mwyn helpu busnesau bwyd i gydymffurfio â chyfraith safonau bwyd, roedd ymgyrch bostio wedi'i threfnu ac anfonwyd llythyr i fusnesau perthnasol ynghylch alcohol ffug, alergenau a chemegyn peryglus a geir mewn rhai atchwanegiadau magu cyhyrau. Roedd swyddogion Safonau Masnach wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi cyngor busnes ac yn 2013 roeddent wedi cynnal digwyddiad "Gofyn i'r Arbenigwr" a oedd yn cynnwys safonau bwyd.

10.11 Roedd Pecyn Busnes Newydd ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd ag awdurdod cyfagos yr oedd disgwyl iddo gael ei lansio ar adeg yr archwiliad. Roedd y pecyn yn cynnwys cyngor ar hylendid bwyd a materion diogelwch, safonau bwyd a phorthiant.

## 11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd a Phorthiant

11.1 Roedd gan yr awdurdod weithdrefnau cofnodedig ar waith er mwyn sicrhau bod ei gronfeydd data ar safleoedd bwyd a phorthiant yn gyfredol ac yn gywir.

11.2 Roedd y gweithdrefnau yn nodi manylion y dulliau a gâi eu defnyddio ac roeddent yn cynnwys gwirio papurau newydd lleol o bryd i'w gilydd am fusnesau bwyd newydd, gwiriadau rheolaidd o geisiadau cynllunio a thrwyddedu, trafod manylion cyflenwyr â busnesau bwyd a phorthiant presennol, gwneud gwaith dilynol ar ymholiadau gan ddarpar fusnesau newydd a chysylltu ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

11.3 Dewisodd yr archwilwyr 10 busnes bwyd ar hap yn ardal yr awdurdod o'r Rhyngrwyd. Canfuwyd bod pob un ohonynt wedi'u cofnodi ar y gronfa ddata safleoedd bwyd ac wedi'u cynnwys yn rhaglenni ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd arfaethedig yr awdurdod.

11.4 O ran porthiant, gwnaeth yr archwilwyr gydnabod y gwaith diweddar a wnaed i hyrwyddo cofrestru porthiant a'r cynnydd canlyniadol mewn busnesau porthiant newydd ar y gronfa ddata. Yn ystod yr archwiliad nodwyd bod angen adolygu gwybodaeth hanesyddol ar y gronfa ddata safleoedd porthiant er mwyn sicrhau ei chywirdeb.

11.5 Roedd yn amlwg yn ystod yr archwiliad fod gan yr awdurdod systemau ar waith i reoli'r wybodaeth a oedd yn cael ei chofnodi ar y cronfeydd data e.e. mynediad cyfyngedig ar gyfer mewnbynnu a dileu gwybodaeth, staff mewnbynnu data wedi'u neilltuo a'u hyfforddi.

11.6 Roedd yr Arweinwyr Tîm a staff cymorth gweinyddol yn allweddol er mwyn sicrhau cywirdeb y cronfeydd data sefydliadau bwyd a phorthiant, gan gynnal gwiriadau dilysu data rheolaidd.

***Argymhelliad***

11.7 Dylai'r awdurdod:

(i) Cynnal adolygiad o'r gronfa data porthiant er mwyn sicrhau ei gywirdeb. [Y Safon – 11.1]

## 12 Arolygu a Samplu Bwyd a Phorthiant.

12.1 Roedd gan yr awdurdod bolisi samplu cofnodedig ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a phorthiant.

12.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn samplu bwyd a oedd yn cael ei dilyn gan swyddogion. Nid oedd y weithdrefn yn cynnwys gwybodaeth am gaffael samplau nac ar gadw samplau tra oeddent dan reolaeth yr awdurdod. Roedd gweithdrefn samplu porthiant wedi cael ei datblygu hefyd. Nododd yr archwilwyr nad oedd y weithdrefn samplu porthiant yn cynnwys cyfeiriad at gadw'r gadwyn o dystiolaeth ar ffurf selio samplau'n ddiogel.

12.3 Roedd rhaglenni samplu ar wahân ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd wedi cael eu rhoi ar waith, a oedd yn unol â pholisi samplu'r awdurdod. Roedd blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol wedi cael eu hystyried, ac roedd y rhaglen samplu wedi cael ei rhoi ar waith.

12.4 Nid oedd rhaglen samplu porthiant wedi cael ei datblygu; roedd gan yr awdurdod bolisi o gymryd samplau porthiant ar sail adweithiol mewn ymateb i gwynion.

12.5 Roedd gweithdrefnau hylendid bwyd, safonau bwyd ac ymyriadau bwyd yr awdurdod yn ymgorffori arolygiadau bwyd drwy gyfeirio at y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Ni nodwyd unrhyw achosion o wyro oddi wrth y Cod Ymarfer.

12.6 Yn ogystal ag ariannu ei samplau ei hun, roedd yr awdurdod wedi gwneud cais llwyddiannus am grantiau gan yr ASB i ariannu samplau safonau bwyd a physgod cregyn.

12.7 Roedd y labordai a benodwyd gan yr awdurdod i archwilio bwyd a phorthiant wedi cael eu hachredu'n briodol ac roeddent ar restr y Labordai Swyddogol yr oedd Llywodraeth y DU wedi hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd amdanynt.

12.8 Roedd pob sampl microbiolegol a safonau bwyd wedi cael eu cymryd gan swyddogion awdurdodedig priodol yn unol â pholisi a rhaglenni samplu'r awdurdod. Roedd canlyniadau samplu ar gael ym mhob achos.

12.9 Cynhaliwyd gwiriadau archwilio ar ddeg sampl a gymerwyd i'w harchwilio'n ficrobiolegol ac roedd dau ohonynt wedi rhoi canlyniad anfoddhaol. Roedd yr awdurdod yn gallu dangos bod busnesau bwyd wedi cael eu hysbysu am y canlyniadau anfoddhaol a bod camau gweithredu priodol wedi'u cymryd ar ôl derbyn y canlyniadau samplu yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod ei hun a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

12.10 Cynhaliwyd gwiriadau archwilio ar ddeg sampl safonau bwyd ac roedd wyth ohonynt wedi rhoi canlyniad anfoddhaol. Roedd yr awdurdod yn gallu dangos bod busnesau bwyd wedi cael eu hysbysu am y canlyniadau anfoddhaol ym mhob achos perthnasol, ac roedd camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd ar ôl derbyn y canlyniadau samplu ym mhob achos bron. Fodd bynnag, mewn un achos, nid oedd unrhyw dystiolaeth o waith dilynol er mwyn sicrhau bod y busnes wedi cymryd camau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio.

12.11 Nid oedd yr awdurdod wedi cymryd unrhyw samplau porthiant yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

***Argymhellion***

12.12 Dylai'r awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu rhaglen samplu porthiant gofnodedig gan ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 12.4]

(ii) Adolygu, diweddaru lle bo angen, cynnal a gweithredu'r gweithdrefnau samplu cofnodedig mewn perthynas â chaffael neu gadw samplau (bwyd) a pharhad tystiolaeth (porthiant) yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a’r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 12.5]

## 13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

13.1 Roedd yr awdurdod wedi nodi swyddog arweiniol ar gyfer clefydau trosglwyddadwy a oedd wedi mynd i ddigwyddiadau fel rhan o Raglen Hyfforddi Swyddogion Arweiniol Cymru.

13.2 Roedd Cynllun Rheoli Achosion wedi'i ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol ac a gymeradwywyd i'w fabwysiadu gan Weithrediaeth yr awdurdod. Roedd y cynllun yn seiliedig ar dempled a gynhyrchwyd gan grŵp amlasiantaeth gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

13.3 Roedd yr awdurdod hefyd wedi llunio Gweithdrefn Ymchwilio i Glefydau Heintus Ysbeidiol yn Gysylltiedig â Bwyd, ac roedd Canllawiau Cyffredinol ar Ymchwilio i Achosion o Wenwyn Bwyd yn y Gymuned wedi'u datblygu gan yr awdurdod, a ategwyd gan ystod o ddogfennau canllaw a holiaduron. Roedd y weithdrefn yn cyfeirio at ymchwilio i fwydydd dan amheuaeth a safleoedd bwyd cysylltiedig.

13.4 Roedd protocol wedi'i ddatblygu yn nodi trefniadau'r awdurdod ar gyfer ymdrin â digwyddiadau clefydau heintus mewn perthynas â bwyd y tu allan i oriau swyddfa. Roedd y trefniadau hyn yn seiliedig ar ewyllys da, a ni chafodd y trefniadau hyn eu profi yn ystod yr archwiliad. Trafododd yr archwilwyr y manteision o ran cyfeirio at y trefniadau hyn yn y weithdrefn waith.

13.5 Yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, roedd yr awdurdod wedi ymchwilio i un achos a oedd yn gysylltiedig â safle bwyd yn ei ardal. Archwiliwyd y cofnodion a oedd yn gysylltiedig â'r achos, a gadarnhaodd fod yr awdurdod wedi cynnal ymchwiliad trylwyr yn unol â'i weithdrefn. Nododd yr archwilwyr fod swyddogion wedi defnyddio holiaduron priodol i holi'r rhai oedd yn gysylltiedig ag achosion dan amheuaeth, bod swyddogion wedi ymweld â'r safle dan sylw a'u bod wedi cysylltu â'r asiantaethau priodol gan gynnwys awdurdodau lleol cyfagos perthnasol.

13.6 Dewiswyd hysbysiadau yn ymwneud â deg achos ysbeidiol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn eu harchwilio, ac o blith y rhain, archwiliwyd cofnodion yn ymwneud ag wyth achos. Nid oedd y ddau achos arall wedi cael eu cofnodi'n briodol; canfuwyd bod un yn wall mewnbynnu ar y gronfa ddata a bod y llall yn unigolyn a oedd yn gysylltiedig â'r achos.

13.7 Yn yr wyth achos cadarnhaodd yr archwilwyr fod ymchwiliadau trylwyr wedi'u cynnal gan swyddogion cymwys a bod camau gweithredu priodol wedi'u cymryd. Nododd yr archwilwyr mewn un achos, er i'r cyswllt

cychwynnol gael ei wneud o fewn targed yr awdurdod o ran amser ymateb, fod hyn wedi'i gyfyngu i ganfod a oedd y dioddefwr mewn galwedigaeth risg uchel. O ganlyniad cafodd yr ymchwiliad ei gynnal yn dilyn sawl ymgais aflwyddiannus i gysylltu â'r achos.

13.8 Roedd cofnodion ynghylch rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

## 14 Digwyddiadau Diogelwch Porthiant a Bwyd

14.1 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer delio â rhybuddion am fwyd a digwyddiadau bwyd a gweithdrefn ar wahân ar gyfer digwyddiadau porthiant. Roedd y weithdrefn ar gyfer rhybuddion bwyd a digwyddiadau bwyd wedi cael ei datblygu yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac roedd yn cynnwys trefniadau y tu allan i oriau swyddfa.

14.2 Roedd y weithdrefn ar gyfer digwyddiadau porthiant yn rhoi canllawiau i swyddogion ar nodi peryglon porthiant, cynnal asesiad risg, hysbysu'r ASB, cysylltiadau â'r wasg a'r cyfryngau a'r System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Porthiant. Fodd bynnag, ni ddarparodd ganllawiau ar ymateb i rybuddion am borthiant a gyhoeddwyd gan yr ASB neu'r trefniadau y tu allan i oriau.

14.3 Roedd Arweinwyr Tîm yn gyfrifol am sicrhau ymateb priodol i rybuddion am fwyd a phorthiant. Y Rheolwr Diogelu Iechyd oedd y dirprwy enwebedig.

14.4 Archwiliodd yr archwilwyr gofnodion mewn perthynas â phum rhybudd am fwyd lle y gofynnwyd am gamau gweithredu mewn perthynas â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd y Tîm Diogelwch Bwyd wedi derbyn tri ohonynt ac wedi ymateb iddynt yn unol â chyngor yr ASB.

14.5 Roedd manylion y camau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod wedi cael eu nodi ar gopi caled o'r rhybudd am fwyd neu roedd nodyn wedi cael ei atodi iddo. Roedd yr holl ohebiaeth, gan gynnwys negeseuon e-bost gan swyddogion yn ymwneud â rhybuddion am fwyd wedi cael ei chadw mewn ffeiliau ac roedd yn hawdd ei hadfer.

14.6 Mewn perthynas â dau o'r rhybuddion am fwyd nad oedd y Tîm Diogelwch a Safonau Bwyd wedi'u derbyn, canfu ymchwiliadau pellach iddynt gael eu derbyn yn rhywle arall yn yr awdurdod, ond na chawsant ymateb. Ar adeg yr ymchwiliad, rhoddodd yr Arweinydd Tîm drefniadau wrth gefn ar waith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhannu'n well o fewn yr awdurdod er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

14.7 Cyn yr elfen ar y safle o'r archwiliad, roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr ASB wedi cael ei hysbysu am ddigwyddiadau lleol difrifol a phroblemau diogelwch bwyd ehangach yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol.

***Argymhelliad***

| | |
|---|---|
| 14.8 | Dylai'r awdurdod: |
| (i) | Sicrhau bod y weithdrefn digwyddiadau porthiant yn cynnwys trefniadau contract y tu allan i oriau swyddfa a chanllawiau i swyddogion ar ymateb i rybuddion am borthiant a gyhoeddir gan yr ASB, a bod y weithdrefn ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau diogelwch bwyd yn cael ei diwygio’n addas i gynnwys y trefniadau wrth gefn. [Y Safon – 14.1] |

## 15 Gorfodi

15.1 Roedd Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Gorfodi a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn 2009. Roedd y Cabinet wedi rhoi'r awdurdod i Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd, ar y cyd â'r Aelod Gweithredol dros Hamdden a Diogelu'r Cyhoedd i ddiweddaru'r Polisi fel y bo angen er mwyn ystyried newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol, proses gyfreithiol neu arfer gorau. Roedd y polisi wedi cael ei ddiwygio yn 2010.

15.2 Roedd nifer o weithdrefnau gorfodi manwl ar waith yn cwmpasu'r amrywiaeth o opsiynau gorfodi oedd ar gael a oedd wedi cael eu datblygu i raddau helaeth yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol eraill. O ran porthiant ni ddarparodd y weithdrefn yr wybodaeth am y dull o gyflwyno hysbysiadau cyfreithiol.

15.3 Archwiliwyd cofnodion Pum Hysbysiad Gwella Hylendid (HIN), un Hysbysiad Camau Unioni (RAN), dau Ataliad, un Ardystiad bwyd a dau Orchymyn Cau yn Wirfoddol. Aseswyd y rhain yn erbyn canllawiau swyddogol, Polisi Gorfodi'r awdurdod a gweithdrefnau cofnodedig.

15.4 Lle roedd Hysbysiadau Gwella Hylendid wedi cael eu cyflwyno roedd wedi bod yn gam priodol i'w gymryd ym mhob achos. Roedd pob hysbysiad wedi cael ei lofnodi a'i gyflwyno gan swyddogion a oedd yn dyst i'r tramgwyddau ac roedd amserlenni priodol wedi cael eu nodi ar gyfer waith unioni. Mewn pedwar allan o bump achos, roedd tystiolaeth bod ailymweliadau wedi cael eu cynnal ar ôl i hysbysiadau ddod i ben a bod y gweithredwr busnes bwyd wedi cael ei hysbysu'n ysgrifenedig fod cydymffurfiaeth wedi ei chadarnhau.

15.5 Mewn un achos yn ymwneud â hyfforddiant hylendid bwyd, roedd yr un drosedd wedi cael ei hailadrodd ar draws pum cylch arolygu. Roedd camau anffurfiol wedi'u cymryd yn dilyn y tri arolygiad cyntaf ac roedd Hysbysiadau Gwella Hylendid wedi cael eu cyflwyno yn dilyn arolygiadau dilynol. Dylai camau gweithredu cynharach a ffurfiol pellach fod wedi cael eu hystyried mewn perthynas â'r troseddau hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

15.6 Mewn dau achos pellach lle roedd Hysbysiadau Gwella Hylendid wedi cael eu cyflwyno i ddelio ag absenoldeb dŵr twym, roedd yr amgylchiadau’n golygu y dylid bod wedi ystyried gweithdrefnau Hysbysiad Atal Argyfwng Hylendid neu Hysbysiad Camau Unioni er mwyn sicrhau gwelliannau mwy uniongyrchol.

15.7 Ym mhob achos ond un roedd yr hysbysiadau wedi cael eu drafftio'n gywir. Roedd yr eithriad yn ymwneud â'r ffaith nad oedd digon o fanylion am y tramgwydd cyfreithiol. Yn yr achos hwn, roedd yr hysbysiad hefyd

wedi cael ei ymestyn gyda'r defnydd o hysbysiad ymestyn yn groes i bolisi'r awdurdod a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog.

15.8 Nid oedd manylion y llys lleol wedi'u rhoi gyda'r Hysbysiadau Gwella Hylendid. Fodd bynnag, cafodd y templed hysbysiad ei ddiwygio er mwyn cynnwys yr wybodaeth hon yn ystod yr archwiliad.

15.9 Os oedd Hysbysiad Camau Unioni wedi cael ei gyflwyno gwelwyd mai hynny oedd y cam priodol i'w gymryd. Roedd yr hysbysiad wedi cael ei lunio'n gywir ar wahân i'r ffaith ei fod wedi cael ei gyfeirio at ysgrifennydd y cwmni yn hytrach na'r cwmni. Nid oedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau o'r cofnodion a oedd ar gael fod gwaith cynhyrchu bwyd wedi dod i ben yn unol â gofynion yr hysbysiad.

15.10 Archwiliwyd cofnodion dau sefydliad bwyd a oedd wedi cytuno i gau'n wirfoddol. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau yn y ddau achos mai dyma oedd y cam priodol i'w gymryd ac roedd tystiolaeth fod yr achosion gwirfoddol o gau wedi cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig mewn llythyr at y gweithredwyr busnes bwyd. Nododd yr archwilwyr fod y gweithredwyr busnes bwyd wedi cytuno ar yr achosion o gau ond nad yr unigolion hyn oedd y rhai a enwyd ar ffurflenni cofrestru'r busnes bwyd. Er bod swyddogion yn ymwybodol o hyn ar y pryd ac yn hyderus eu bod wedi cymryd y camau priodol o dan yr amgylchiadau, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y busnesau wedyn wedi cael cais i gwblhau ffurflenni cofrestru newydd er mwyn sicrhau bod cronfa ddata'r awdurdod yn gyfredol. At hynny, nid oedd digon o dystiolaeth fod y sefydliadau bwyd wedi cael eu monitro ar ôl iddynt gau er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod ar gau.

15.11 Archwiliwyd cofnodion dau achos lle roedd bwyd wedi cael ei atal gan yr awdurdod, ac un achos lle roedd bwyd wedi cael ei ardystio o dan Reoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 fel bwyd nad oedd yn bodloni gofynion diogelwch bwyd. Atal bwyd fu'r cam priodol i'w gymryd. Trafodwyd y weithdrefn ar gyfer ardystio bwyd yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd gyda swyddogion.

15.12 Lle roedd bwyd wedi cael ei atal, dilynwyd y broses gyfreithiol gywir a gwaredwyd y bwyd wedyn gan y gweithredwr busnes bwyd o dan oruchwyliaeth dau swyddog awdurdodedig er mwyn ei atal rhag ailymuno â chadwyn fwyd pobl.

15.13 Nid oedd unrhyw rybuddiad nac erlyniad wedi bod o ran hylendid bwyd ac nid oedd unrhyw gamau ffurfiol wedi'u cymryd mewn perthynas â safonau bwyd neu borthiant yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

***Argymhellion***

15.14 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod camau gorfodi cyfraith hylendid bwyd yn cael eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2]

(ii) Sicrhau y gwneir pob penderfyniad gorfodi yn dilyn ystyriaeth o Bolisi Gorfodi'r awdurdod ac y cofnodir y rhesymau dros wyro oddi wrth y polisi. [Y Safon – 15.4]

## 16 Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu

***Hylendid bwyd***

16.1 Cafodd cofnodion busnesau bwyd, gan gynnwys dogfennau cofrestru a chymeradwyo, taflenni arolygu/aide-memoirs a gohebiaeth eu cadw gan yr awdurdod yn ffeiliau copi caled y safle. Cadwyd hefyd fanylion am ddyddiad yr ymyriad a'r math o ymyriad sy'n gysylltiedig â busnesau bwyd, yn ogystal â phroffil risg y safle, ar gronfa ddata electronig yr awdurdod. Nododd yr archwilwyr fod pob un o ffeiliau'r safleoedd mewn trefn dda, a bod y cofnodion yn cael eu cadw mewn trefn gronolegol. Lle bo hynny'n berthnasol, roedd gwybodaeth yn ymwneud â'r tri arolygiad diwethaf yn adferadwy ac roedd cofnodion yn cael eu cadw am chwe blynedd.

16.2 Roedd swyddogion yn defnyddio llythyrau adroddiadau arolygu i gyfleu canfyddiadau arolygiad i fusnesau bwyd, a oedd yn dangos yn glir y gwahaniaeth rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion ar gyfer arfer da. Roedd y llythyrau hyn hefyd yn manylu ar gamau unioni i'w cymryd a'r amserlenni gofynnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, yn ogystal â nodi unrhyw gamau dilynol yr oedd yr awdurdod yn bwriadu eu cymryd. At hynny, lle y bo'n briodol, roedd copïau o'r llythyrau wedi cael eu hanfon at bobl neu sefydliadau oedd â diddordeb yng nghanfyddiadau'r arolygiad.

16.3 Yn gyffredinol, roedd y cofnodion ar ffeiliau'r safleoedd a'r gronfa ddata electronig yn gywir. Roedd ffurflenni cofrestru ar gael ar gyfer pob un o ffeiliau'r safleoedd namyn un a archwiliwyd, ond yn yr achos hwn trefnwyd camau dilynol. Mewn un achos nid oedd manylion y gweithredwr busnes bwyd ar y ffurflen gofrestru yn cyfateb â'r manylion yng nghofnodion a gohebiaeth yr arolygiad diwethaf.

16.4 Cadarnhaodd gwiriadau archwilio fod ffurflenni arolygu/aide-memoire a gohebiaeth yn cynnwys manylion am y gweithredwr busnes bwyd, dyddiadau arolygu, math o fusnes, y gyfraith bwyd benodol a meysydd a archwiliwyd, enw a dynodiad y swyddog arolygu, dogfennau a archwiliwyd, p'un a gymerwyd samplau a chyfeiriad a manylion cyswllt un o uwch swyddogion yr awdurdod pe bai anghydfod.

16.5 Cadarnhaodd yr archwilwyr, ym mhob un o ffeiliau'r safleoedd a archwiliwyd, fod llythyrau wedi cael eu hanfon i'r busnes yn dilyn arolygiad, er iddynt nodi, mewn pum allan o'r 10 safle cyffredinol, na chafodd y rhain eu hanfon o fewn 14 diwrnod i'r arolygiad, fel sy'n ofynnol yn ôl gweithdrefnau'r awdurdod. Yn yr achosion hyn anfonwyd llythyrau rhwng 20 ac 87 diwrnod ar ôl y terfyn o 14 diwrnod heb roi unrhyw esboniad wedi’i ddogfennu am yr oedi.

16.6 Wrth groesgyfeirio gwybodaeth yn ymwneud ag arolygiadau/ymyriadau a oedd yn cael ei chadw ar ffeiliau'r safleoedd yn erbyn y gronfa ddata electronig, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod y system yn gyfredol a bod y sgoriau risg yn gywir.

***Argymhelliad***

16.7 Dylai'r awdurdod:

(i) Cofnodi, gyda rhesymau dros wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1]

***Safonau Bwyd***

16.8 Gwnaeth yr archwilwyr archwilio cofnodion yn ymwneud â’r naw sefydliad bwyd a ddewisiwyd ar gyfer archwiliad.

16.9 Roedd tri o'r naw busnes wedi cael eu codio'n anghywir fel arolygiadau safonau bwyd llawn, pan oedd yn amlwg o nodiadau'r ffeil nad oeddent. O ganlyniad, nid oedd gwiriadau pellach a gofnodwyd yn yr adran hon yn gymwys iddynt.

16.10 Mewn perthynas â thri o'r chwe busnes bwyd perthnasol, nid oedd digon o wybodaeth ar gael i nodi a oedd achosion cyfreithiol wedi’u nodi yn y busnesau hyn yn ystod yr arolygiad diwethaf, ac felly a oedd angen i'r awdurdod gymryd unrhyw gamau dilynol.

16.11 Roedd pedwar o'r chwe busnes bwyd perthnasol wedi cael adroddiadau arolygu ysgrifenedig ond nid oedd dau ohonynt wedi cael adroddiad, a oedd yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

16.12 Nid oedd y pedwar adroddiad arolygu yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, gan gynnwys dynodi'r swyddog arolygu, manylion cyswllt ar gyfer uwch swyddog, presenoldeb neu absenoldeb achosion cyfreithiol o fethu â chydymffurfio a gwahaniaeth pendant rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion.

16.13 Roedd ffurflenni cofrestru busnesau bwyd ar gael ym mhob achos perthnasol ac wedi’u marcio gyda’r dyddiad derbyn, fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

16.14 Roedd yr Awdurdod yn gallu dangos ei fod yn cadw cofnodion safonau bwyd am chwe blynedd.

***Argymhelliad***

16.15 Dylai'r awdurdod:

(i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy ym mhob sefydliad bwyd yn ei ardal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad, penderfynu ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camu a gymerwyd lle nodir achos o fethu â chydymffurfio, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd a gwybodaeth cofrestru bwyd berthnasol. [Y Safon – 16.1]

***Porthiant***

16.16 Prin oedd yr wybodaeth a oedd ar gael yn ymwneud â'r nifer fach o ymyriadau bwyd a gynhaliwyd. Nid oedd yn bosibl, mewn saith allan o wyth achos, i swyddog nad oedd wedi ymweld â busnes o'r blaen, gadarnhau ei hanes cydymffurfio llawn a sicrhau dull graddedig o orfodi.

16.17 Nid oedd yn bosibl nodi a oedd unrhyw weithredwyr busnesau porthiant wedi cael adroddiadau yn dilyn arolygu saith o'r wyth sefydliad. Yn yr un achos lle y cyflwynwyd adroddiad, roedd yn ddarllenadwy ac yn rhestru'r meysydd trafod allweddol gyda'r gweithredwyr busnesau bwyd. Fodd bynnag, ni chyfeiriodd at y gyfraith porthiant benodol y cynhaliwyd yr arolygiad yn unol â hi ac ni roddodd fanylion llawn y swyddog arolygu nac uwch swyddog fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant. Nid oedd yn bosibl canfod a oedd llythyrau wedi cael eu hanfon yn dilyn yr arolygiadau gan nad oedd dim ar gael.

***Argymhellion***

16.18 Dylai'r awdurdod:

(i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy ym mhob sefydliad porthiant perthnasol a phorthiant a fewnforir yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Porthiant a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad, penderfynu ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion y camau a gymerwyd. [Y Safon – 16.1]

(ii) Sicrhau y cedwir cofnodion porthiant ac adroddiadau

ymyrryd/arolygu am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 16.2]

## 17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr awdurdod lleol wedi datblygu Polisi Canmol, Pryderon a Chwynion a oedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd ar ei wefan.

17.2 Er na chafwyd unrhyw gwynion am wasanaethau bwyd na phorthiant yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, roedd y Rheolwr Diogelu Iechyd yn gallu dangos bod trefniadau effeithiol ar waith yn y gwasanaeth i ymchwilio i ganlyniad ymchwiliad i gwynion a rhoi adroddiad arno.

## 18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt ar waith gydag awdurdodau cyfagos ac roedd yn cyfrannu at ddatblygu agenda gydweithredu Gogledd Cymru sef "Collaboration Plus". Roedd trefniadau cyswllt hefyd ar waith gyda chyrff eraill gyda'r nod o hwyluso gwaith gorfodi cyson. Roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru;
- Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru (WHoEH)
- Penaethiaid Safonau Masnach Cymru (WHoTS);
- Grŵp Bwyd ac Amaethyddiaeth Cymru;
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan;
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd Gogledd Cymru;
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Panel Bwyd a Mesureg Gogledd Cymru
- Panel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy
- Grŵp Archfarchnadoedd y Prif Awdurdod

18.2 Roedd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt ar gael ac yn cadarnhau presenoldeb cyson gan gynrychiolwyr gwasanaethau priodol.

18.3 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt hefyd â'r canlynol:

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Y Swyddfa Rheoliadau Gwell

## 19 Monitro Mewnol

19.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau ar gyfer dulliau monitro mewnol meintiol ac ansoddol o ymdrin â diogelwch bwyd, safonau bwyd a gwasanaethau porthiant.

19.2 Roedd dulliau monitro mewnol meintiol o ymdrin â diogelwch a safonau bwyd wedi cael eu cyflawni gan yr Arweinydd Tîm yn unol â'r weithdrefn gofnodedig.

19.3 Nododd y weithdrefn yr agweddau hynny ar berfformiad a fyddai'n cael eu monitro'n fisol, yn chwarterol ac yn flynyddol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried nifer yr arolygiadau wedi'u rhaglennu a gynhaliwyd a nifer y busnesau newydd a arolygwyd yn erbyn y niferoedd disgwyliedig, canran y busnesau bwyd 'sy'n cydymffurfio'n fras' â deddfwriaeth hylendid bwyd, nifer y camau sydd eto i'w cymryd, nifer y toriadau deddfwriaethol sylweddol a rhybuddion ysgrifenedig, nifer y sefydliadau bwyd sydd wedi cael sgôr o 0, 1 neu 2 o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a nifer y sefydliadau a oedd wedi rhoi'r gorau i fasnachu.

19.4 Roedd nifer o ddangosyddion perfformiad meintiol yn ymwneud â diogelwch a safonau bwyd wedi cael eu nodi i'w cynnwys ar system monitro perfformiad corfforaethol yr awdurdod. Roedd adroddiad ar berfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn cael ei roi bob chwarter i'r Pennaeth Gwasanaeth a bob chwe mis i'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

19.5 Roedd yr Arweinydd Tîm wedi cynnal gwaith monitro mewnol ansoddol yn unol â'r weithdrefn gofnodedig. Roedd pob agwedd ar y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd wedi cael ei monitro'n fewnol ac roedd swyddogion yn cael adborth ar eu gwaith yn gyson.

19.6 Er mwyn hyrwyddo cysondeb, roedd pob swyddog yn cynnal dau arolygiad bob blwyddyn yng nghwmni'r Arweinydd Tîm neu aelod arall o'r tîm fel adolygiad gan gymheiriaid. Roedd profforma wedi cael ei ddatblygu i gofnodi canfyddiadau arolygiadau a gynhaliwyd yng nghwmni swyddog arall.

19.7 Roedd yr Arweinydd Tîm hefyd yn cynnal arolygiadau yng nghwmni swyddogion eraill a oedd newydd gymhwyso, contractwyr a swyddogion a oedd yn trosglwyddo o dimau eraill neu'n dychwelyd i'r gwaith, er mwyn asesu eu cymwyseddau. Nes bod yr Arweinydd Tîm yn eu hasesu ac yn cadarnhau eu bod yn gymwys, roedd swyddogion addas profiadol yn mynd ar ymweliadau gyda hwy.

19.8 Roedd arolygiadau dilysu yn cael eu cynnal gan yr Arweinydd Tîm i asesu ansawdd yr arolygiadau a chydymffurfiaeth â gweithdrefnau.

19.9 Bob chwarter roedd yr Arweinydd Tîm yn dewis sampl o arolygiadau a gynhaliwyd ar gyfer eu monitro'n fewnol. Roedd y cofnodion a'r dogfennau a oedd yn ymwneud â'r arolygiadau yn cael eu hadolygu a'r canfyddiadau'n cael eu cofnodi.

19.10 Rhoddwyd adborth ar ganlyniad y gwaith monitro mewnol i swyddogion yn unigol ac mewn cyfarfodydd tîm a oedd yn cael eu cynnal bob mis.

19.11 Roedd camau unioni yn dilyn gwaith monitro mewnol wedi cael eu cofnodi gan yr Arweinydd Tîm ar ffurf negeseuon e-bost i aelodau unigol o staff.

19.12 Roedd swyddogion wedi mynychu hyfforddiant a ddarparwyd gan yr ASB ac yn fewnol er mwyn sicrhau bod sgoriau risg hylendid bwyd yn cael eu cymhwyso'n gyson yn unol ag Atodiad 5 o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

19.13 Roedd cofnodion yn ymwneud â gwaith monitro mewnol yn cael eu cadw gan yr Arweinydd Tîm am ddwy flynedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

19.14 Nid oedd gweithdrefnau monitro mewnol mewn perthynas â phorthiant wedi cael eu rhoi ar waith.

19.15 Roedd Arolwg o Foddhad Cwsmeriaid ym maes Diogelu'r Cyhoedd wedi cael ei gynnal yn 2012/13 a oedd yn cynnwys y gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a phorthiant. Dywedodd 80% o breswylwyr a 100% o fusnesau a arolygwyd eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarparwyd.

***Argymhelliad***

19.16 Dylai'r awdurdod:

(i) Gweithredu'r gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer porthiant a chadw cofnodion monitro mewnol am ddwy flynedd o leiaf. [Y Safon – 19.1 ac 19.3]

## 20 Adolygiad Trydydd Parti neu Adolygiad gan Gymheiriaid

20.1 Nid oedd unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid nac archwiliadau trydydd parti wedi eu cynnal o'r gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd neu borthiant yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

## 21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Phorthiant

21.1 Roedd yr awdurdod wedi cyflwyno nifer o fentrau gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch bwyd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys y canlynol:

- Hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol;
- Hyrwyddo golchi dwylo mewn ysgolion lleol;
- Cynhyrchu a hyrwyddo llyfryn o'r enw "Eating Safely on a Budget";
- Hyrwyddo diogelwch bwyd yn Sioe Amaethyddol Dinbych a Fflint

21.2 Roedd erthyglau yn hyrwyddo diogelwch bwyd wedi cael eu cyhoeddi yn y Bwletin Amgylcheddol misol, sef cyhoeddiad mewnol i staff, yn cwmpasu pynciau fel diogelwch wrth goginio barbeciw a diogelwch bwyd adeg y Nadolig.

21.3 Roedd tystiolaeth bod arferion trin bwyd yn ddiogel a hylendid dwylo wedi cael eu trafod yn rheolaidd gydag achosion yn ystod ymchwiliadau i glefydau heintus.

21.4 Cynrychiolwyd y gwasanaeth diogelwch bwyd yn y 'Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy Sir y Fflint' amlasiantaeth.

21.5 Roedd yr awdurdod wedi cydweithio ag awdurdod cyfagos i hyrwyddo hylendid bwyd, safonau bwyd a phorthiant yn Sioe Amaethyddol Dinbych a Fflint. Hyrwyddodd y digwyddiad y dull gweithredu 'O'r Fferm i'r Fforc' ac roedd yn cynnwys cyflwyniadau, arddangosfeydd a chystadlaethau.

21.6 Roedd cofnodion gweithgareddau hyrwyddol yn cael eu cadw gan yr Arweinwyr Timau.

Archwilwyr:

**Archwilydd Arweiniol:** **Kate Thompson**
Archwiliwyr: Alun Barnes
Craig Sewell
Daniel Morelli

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

**ATODIAD A**

**Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir y Fflint**
**Dyddiad yr Archwiliad: 28 Hydref – 1 Tachwedd 2013**

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| 3.18(i) Sicrhau y datblygir Cynlluniau Gwasanaeth Bwyd a Phorthiant y dyfodol yn unol â Chanllawiau Cynllunio'r Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Dylai gwybodaeth fwy cynhwysfawr ar wasanaeth porthiant yr awdurdod gael ei darparu ynghyd â dadansoddiad cadarn o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau bwyd a phorthiant yn erbyn y rhai sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Medi 2014 | <u>Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd</u><br>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â:<br><br>a) Peidio â chynnwys nifer y safleoedd cymeradwy yn y Sir.<br><br>b) Peidio â chynnwys y gofynion o ran adnoddau i ddarparu'r Gwasanaeth Bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn ei gyfanrwydd.<br><br>c) Peidio â chynnwys amcangyfrif o'r adnoddau sy'n ofynnol i ailymweld â phob safle â sgôr 0, 1 a 2 ac i arolygu busnesau newydd.<br><br>Bydd cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol yn sicrhau y cynhwysir pob un o'r uchod, a bydd yn cynnwys dadansoddiad o'r adnoddau sydd eu | Ysgrifennwyd y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer 2014/15 ar ffurf ddrafft tra'n aros i dderbyn ein hadroddiad archwilio terfynol. Disgwylir iddo fynd gerbron y Cabinet ym mis Medi 2014. Mae pob un o'r gwelliannau arfaethedig yn cael eu hymgorffori yn y ddogfen hon.<br><br>Mae'r Cynllun Gwasanaeth ar gyfer 2014/15 yn cynnwys llawer mwy o wybodaeth gynhwysfawr am Wasanaeth Porthiant Cyngor Sir y Fflint ac yn cynnwys yr holl welliannau arfaethedig a nodwyd. |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| | | hangen er mwyn darparu’r gwasanaeth bwyd yn gyflawn yn erbyn y rheiny sydd ar gael.<br><br>Porthiant<br>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â lefel yr wybodaeth a ddarperir am y gwasanaeth porthiant yn gyffredinol ond mae'n tynnu sylw yn arbennig at y canlynol:<br><br>a) Diffyg gwybodaeth am yr adnoddau sy'n ofynnol i gyflwyno'r ystod o reolaethau porthiant swyddogol sy'n ofynnol i fodloni gofynion y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant.<br><br>b) Diffyg gwybodaeth am gost darparu'r gwasanaeth porthiant.<br><br>c) Diffyg gwybodaeth am drefniadau monitro mewnol y gwasanaeth porthiant.<br><br>Mae gwelliannau arfaethedig yn | |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| | | cynnwys dadansoddiad manwl o'r adnoddau sydd eu hangen yn erbyn y rhai sydd ar gael mewn gwirionedd. Bydd hyn yn ystyried effaith 'ennill cydnabyddiaeth' a gyflwynir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Porthiant diwygiedig, y rhagwelir y caiff ei gyflwyno yng Nghymru yn y dyfodol agos, a chynllun gwaith gwasanaeth Porthiant Gogledd Cymru cydweithredol y cytunwyd arno gan benaethiaid Safonau Masnach Gogledd Cymru (NWHoTS). | |
| 3.18(ii) Mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau o ran cyflawni cynllun darparu'r gwasanaeth porthiant mewn cynlluniau gwasanaeth dilynol. [Y Safon – 3.3] | Wedi'i gwblhau | Cynhelir adolygiad manwl o ddarpariaeth gwasanaeth cyfraith porthiant 2013/14 yn erbyn y targedau a bennwyd yng Nghynllun Gwasanaeth 2013/14. Ymdrinnir ag unrhyw anghysondebau yng Nghynllun Gwasanaeth 2014/15. | Mae'r adolygiad wedi ei gynnal ac ymdriniwyd â'r anghysondebau yng Nghynllun Gwasanaeth 2014/15. |
| 5.12(i) Adolygu a diweddaru holl awdurdodiadau swyddogion er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol | Wedi'i gwblhau | <u>Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd / Porthiant</u><br>Caiff pob awdurdodiad ei adolygu a'i ddiweddaru lle bo angen. Cyflawnir hyn yn unol â newidiadau mewn | Mae hyn eisoes wedi ei roi ar waith. |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant, eu profiad a'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.3] | | deddfwriaeth. | |
| 5.12(ii) Cynnal cofnodion o gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad perthnasol swyddogion awdurdodedig a staff cymorth priodol yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5] | Wedi'i gwblhau | Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd<br>Caiff cofnodion hyfforddi a gedwir eisoes eu hategu gan gopïau o dystysgrifau DPP a gedwir yn electronig mewn gyriant canolog a rennir.<br><br>Porthiant<br>Cedwir copïau o'r holl gofnodion hyfforddi a chymwysterau ar ffeil bersonol swyddog. | Gofynnwyd i bob swyddog ddarparu copïau o'i DPP. Ar gyfer cyrsiau yn y dyfodol, mae cyfarwyddyd uniongyrchol yn nodi y dylai pob DPP gael ei sganio ar y gyriant a rennir yn ogystal â chael ei ysgrifennu yn y gofrestr.<br><br>Caiff yr holl gofnodion eu casglu a'u cadw'n ganolog ar gyfer swyddogion porthiant. |
| 6.11(i) Adolygu, diwygio a gweithredu'r weithdrefn a ddogfennir ar gyfer cynnal a chadw a graddnodi. [Y Safon – 6.2] | Wedi'i gwblhau | Hylendid Bwyd<br>Mae angen diwygio'r weithdrefn ar raddnodi thermomedrau er mwyn ymdrin â'r sylw nad oedd y weithdrefn ysgrifenedig yn sôn yn benodol am y goddefiant ar gyfer graddnodi'r profiedyddion thermomedr. Er i hyn gael ei nodi ar y ffurflenni cofnodi ni chafodd ei gynnwys yn y weithdrefn | Mae'r weithdrefn wedi ei hadolygu a'i diwygio i gynnwys cyfeiriad penodol at y goddefiant o 0.5°C yn y weithdrefn ysgrifenedig. |

| **MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)** | **ERBYN (DYDDIAD)** | **GWELLIANNAU ARFAETHEDIG** | **Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA** |
|---|---|---|---|
| | | ysgrifenedig. | |
| <u>Hylendid Bwyd</u><br>7.19(i) Sicrhau bod pob ymyriad/arolygiad hylendid ar safleoedd bwyd yn cael ei gynnal ar yr adegau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Wedi'i gwblhau | Mae hyn yn ymwneud â'r argymhelliad y dylid cynnal pob arolygiad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad disgwyliedig. Er bod Cyngor Sir y Fflint wedi cynnal pob un o'r arolygiadau Risg Uchel disgwyliedig bob blwyddyn ariannol, nid yw rhai arolygiadau Risg Uchel wedi eu cynnal o fewn y 28 diwrnod disgwyliedig, er iddynt gael eu cynnal yn ôl y disgwyl o fewn y rhaglen flynyddol.<br><br>Gwelliannau Arfaethedig:<br>Mae disgwyl i bob arolygiad Risg Uchel eleni gael ei gwblhau o fewn y 28 diwrnod disgwyliedig. Caiff hyn ei fonitro gan Arweinydd y Tîm mewn cyfarfodydd unigol misol. Dylai unrhyw wyro oddi wrth y rheol 28 diwrnod hon gael ei ddogfennu ar y gronfa ddata electronig. | Cafodd swyddogion eu hysbysu mewn cyfarfod ffurfiol a gofnodwyd bod disgwyl iddynt gynnal yr arolygiadau disgwyliedig yn nhrefn y dyddiadau. Darparwyd rhestri chwarterol o arolygiadau gyda dyddiadau'r arolygiad disgwyliedig nesaf.<br><br>Eisoes mae gennym daenlen dadansoddi ymyriadau lle mae'n rhaid i swyddogion gwblhau blwch testun os ydynt dros y cyfnod 28 diwrnod i roi rheswm pam fod yr arolygiad yn hwyr. |
| 7.19(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid ar safleoedd risg is yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a | a) a b) O fis Ebrill 2014 ac yn barhaus yn ystod 2014/15 | a) Dylai pob arolygiad hwyr gradd D a safleoedd gradd D y mae disgwyl iddynt gael eu harolygu eleni gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn | Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gweithredu Strategaeth Gorfodi Amgen ers i'r archwiliad gael ei gynnal, lle |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | c) Diwedd mis Mawrth 2016. | ariannol hon. Mae hyn yn cyfateb i 175 o arolygiadau.<br><br>b) Dylid cynnal arolygiadau gradd D y mae disgwyl iddynt gael eu cynnal eleni o fewn y 28 diwrnod disgwyliedig.<br><br>c) Dylai Strategaeth Gorfodi Amgen (AES) gael ei llunio a'i gweithredu er mwyn ymdrin â phob safle gradd E lle nad oes arolygiad wedi ei gynnal eto o fewn cyfnod o ddwy flynedd. | yr anfonwyd holiadur AES ym mis Mawrth 2014 i bob safle nad oedd wedi cynnal arolygiad eto ac na fyddai o fewn cwmpas y Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd neu nad oedd efallai yn cymhwyso fel busnes bwyd. Mae tua 50 o fusnesau bwyd wedi ymateb. Dylid cysylltu â'r 120 o safleoedd sy'n weddill dros y ffôn i gwblhau'r holiadur gan ddefnyddio'r ffôn. |
| 7.19(iii) Sicrhau bod arsylwadau a wneir a/neu ddata a gesglir yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol. [Y Safon – 7.5] | Wedi'i gwblhau | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â barn archwilwyr nad oedd digon o wybodaeth yn cael ei darparu gan swyddogion mewn rhai achosion ar yr aide memoir a ddefnyddir i helpu swyddogion yn ystod eu harolygiadau.<br><br>Gwelliannau Arfaethedig:<br>Dylai swyddogion gwblhau'r aide memoir yn ddigon manwl fel y gall swyddogion eraill wneud yr asesiad angenrheidiol i lywio camau | Mae swyddogion wedi cael cyfarwyddyd i gwblhau cymaint o'r aide memoir ag sydd angen iddynt ei gwblhau, er mwyn sicrhau y gall y swyddog arolygu nesaf ganfod lefel yr arferion sydd ar waith ar y pryd ac asesu a oedd yr arferion hynny ac ati yn ddigonol.<br><br>Roedd y weithdrefn Monitro Mewnol eisoes yn cynnwys |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| | | gweithredu graddedig, yn seiliedig ar risg. | asesiad o'r ffurflen hon yn cael ei chwblhau yn gynhwysfawr, cyn archwiliad yr ASB. |
| Safonau Bwyd<br>7.34(i) Sicrhau y cynhelir ymyriadau safonau bwyd ar adegau rheolaidd nad ydynt yn llai na'r hyn a bennir o dan y cynllun sgorio ymyrryd a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.1] | Diwedd mis Mawrth 2017 | Mae hyn yn ymwneud â'r argymhelliad y dylid cynnal pob arolygiad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad disgwyliedig. Er bod Cyngor Sir y Fflint wedi cynnal pob un o'r arolygiadau Risg Uchel disgwyliedig bob blwyddyn ariannol, nid yw rhai arolygiadau Risg Uchel wedi eu cynnal o fewn y 28 diwrnod disgwyliedig.<br><br>Safleoedd Risg Isel a Chanolig<br>Mae ôl-groniad o safleoedd lle mae'r arolygiad safonau bwyd yn hwyr. | Cafodd swyddogion eu hysbysu mewn cyfarfod ffurfiol a gofnodwyd bod disgwyl iddynt gynnal yr arolygiadau disgwyliedig yn nhrefn y dyddiadau. Darparwyd rhestri chwarterol o arolygiadau gyda dyddiadau'r arolygiad disgwyliedig nesaf.<br><br>Eisoes mae gennym daenlen dadansoddi ymyriadau lle mae'n rhaid i swyddogion gwblhau blwch testun os ydynt dros y cyfnod 28 diwrnod i roi rheswm pam fod yr arolygiad yn hwyr.<br><br>Roedd Arweinydd y Tîm eisoes wedi nodi bod hwn yn broblem yng Nghynllun Gwasanaethu 2013/14 cyn yr |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| | | | archwiliad ac wedi llunio Cynllun Gweithredu.<br><br>O fis Mawrth 2014, dyrannwyd arolygiadau Safonau Bwyd i bob Swyddog Iechyd yr Amgylchedd i'w cynnal ar yr un pryd ag y maent yn cynnal arolygiadau Hylendid Bwyd.<br><br>Mae Arweinydd y Tîm yn pennu rhestri o arolygiadau i'r Swyddog Safonau Masnach (TSO) a'r Swyddog Gorfodi Safonau Masnach (TSEO) yn unol â'r modd y neilltuir gwaith ar gyfer Hylendid Bwyd.<br><br>Ers yr archwiliad, mae dau Swyddog Diogelwch Bwyd yn cwblhau'r modiwl Safonau Bwyd i'w galluogi i fod yn gymwys i wneud gwaith Safonau Bwyd. |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r Tîm bellach yn gweithio yn yr un swyddfa sy'n well o ran cyfathrebu, monitro'r gwaith a wneir a chysoni diwylliant gwaith a phrosesau. |
| 7.34(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau a chofrestru sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer, a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Wedi'i gwblhau | Safonau Bwyd<br>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag arolygiadau Safonau Bwyd a gynhaliwyd lle rhoddwyd rhybudd ond na chafodd y rheswm dros roi rhybudd am yr ymweliad (yn hytrach nag ymweliad dirybudd) ei gofnodi. | Dylai arolygiadau fod yn rhai dirybudd, oni fydd rheswm dilys, cofnodedig am roi rhybudd am yr ymweliad. |
| 7.34(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ailymweld gofnodedig ar gyfer safonau bwyd. [Y Safon – 7.4] | Wedi'i gwblhau | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â'r ffaith nad yw'r Weithdrefn Ailymweld yn sôn am ailymweliadau o ran Safonau Bwyd.<br><br>Gwelliant Arfaethedig:<br>Caiff Gweithdrefn / Polisi Ailymweld ar gyfer Safonau Bwyd ei (h)ysgrifennu. | Mae gweithdrefn/polisi ailymweld wedi ei (h)ysgrifennu ar gyfer Safonau Bwyd. |
| 7.34(iv) Cofnodi arsylwadau a wnaed a/neu ddata a gafwyd yn ystod arolygiad/ymyriad mewn modd amserol er mwyn sicrhau | Awst 2014 | Caiff aide memoir ei gynhyrchu ar gyfer arolygiadau Safonau Bwyd a ddefnyddir gan bob swyddog sy'n cynnal arolygiadau Safonau Bwyd. | Mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sy'n cynnal gwaith Safonau Bwyd wedi bod yn cofnodi canfyddiadau |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| nad yw gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | | | ar eu aide memoir yn yr adran Safonau Bwyd berthnasol. Ni wnaed hyn gan y TSO na'r TSEO. Mae ffurflen ddrafft newydd gael ei llunio a'i hanfon at y tîm am sylwadau. |
| <u>Bwydydd Anifeiliaid</u><br>7.50(i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau sefydliadau porthiant yn cael eu cynnal ar yr adegau sy'n ofynnol yn ôl Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant. [Y Safon – 7.1] | Diwedd mis Mawrth 2017 | Yn dilyn yr adolygiad o'r gronfa ddata safleoedd porthiant yn 2013 mae cywirdeb wedi gwella. Mae hwn yn ymarfer sy'n mynd rhagddo.<br><br>Mae'r angen i wella cywirdeb ar draws pob un o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru wedi ei nodi fel un o'r tair blaenoriaeth ledled y gogledd a dyma ganolbwynt gwaith cydweithredol a gynlluniwyd i gyflawni'r swyddogaeth porthiant ledled y gogledd yn ystod 2014/15.<br><br>Oherwydd y nifer o safleoedd dan sylw sydd heb eu sgorio ar hyn o bryd, cytunwyd ar gynllun i arolygu tua 100 o safleoedd y flwyddyn yn ychwanegol at y rhai y nodwyd eisoes bod ganddynt risg ganolig | Mae gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o gydweithrediad NWHoTS i ddarparu dull cydgysylltiedig gan ddefnyddio'r arbenigedd sydd ar gael yn y maes hwn ar draws y rhanbarth fel rhan o nifer o brosiectau i wella'r broses gydymffurfio.<br><br>Cytunwyd ar gynllun yn Sir y Fflint i dargedu 100 o safleoedd ychwanegol sydd heb eu sgorio ar hyn o bryd ar gyfer porthiant yn ystod y cyfnod 2014/15. Mae hyn yn rhan o gynllun tair blynedd sy'n targedu 100 o safleoedd sydd heb eu sgorio ar hyn o bryd bob blwyddyn. Mae'r |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| | | neu uchel. Bydd y cynllun hwn yn para am dair blynedd yn Sir y Fflint, ac ar ôl ei gwblhau bydd y safleoedd wedi eu hasesu'n gywir o ran risg yn seiliedig ar arolygiad. Bydd y cynllun hwn yn sicrhau bod materion ynghylch cynnwys pob safle rheoledig, asesu risg yn gywir ac amlder arolygu safleoedd yn unol â Chod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant (FLECP). | cynllun hwn ar gam gweithredu cynnar ar hyn o bryd a chaiff ei ymestyn ar ôl hyfforddi Swyddogion Iechyd Anifeiliaid (AHOs) ym maes porthiant a newid disgwyliedig i'r gofynion cymhwyso i swyddogion o ganlyniad i FLECP newydd yn ddiweddarach yn 2014. |
| 7.50(ii) Cynnal arolygiadau/ymyriadau a chymeradwyo neu gofrestru sefydliadau porthiant yn unol â deddfwriaeth berthnasol a’r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Porthiant a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Ebrill 2015 ar gyfer Risg Uchel ac yn barhaus hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017 ar gyfer risg is/heb ei sgorio. | Mae'r gronfa ddata safleoedd yn cael ei diweddaru'n gyson a busnesau newydd yn cael eu hychwanegu, a manylion busnesau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu diwygio lle y gwelwyd bod angen gwneud hynny o ganlyniad i waith arolygu a wnaed. Bwriedir arolygu pob safle Risg Uchel yn ystod y flwyddyn a chanran o safleoedd risg ganolig a safleoedd sydd heb eu sgorio ar hyn o bryd. | Arolygwyd pob safle risg uchel cyn 31 Mawrth 2014 a diwygiwyd y gronfa ddata fel bo angen i adlewyrchu'r risg gyfredol wirioneddol. |
| 7.50(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr AES ac ailymweliadau a diwygio'r | Ionawr 2015 | Caiff gweithdrefnau o ran ymyriadau amgen ac ailymweliadau eu datblygu a'u dogfennu ar gyfer porthiant. | Mae gwaith yn mynd rhagddo ar weithdrefnau porthiant i sicrhau cysondeb ac unffurfiaeth ledled Cymru ar |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| weithdrefn ar gyfer arolygiadau porthiant yn ymwneud â'r defnydd o ffurflenni arolygu priodol a dull sgorio risg. [Y Safon – 7.4] | | Caiff y weithdrefn arolygu safleoedd ei diwygio o ran y defnydd o ffurflenni priodol a dull sgorio risg gweithgarwch safle. | ran y 22 o awdurdodau lleol gan weithgor WHoTS ar y cyd ag ASB Cymru. Y dyddiad targed ar gyfer cyflawni yw diwedd 2014 ar hyn o bryd. Gwnaeth Cyngor Sir y Fflint gynghori'r ASB i aros am hyn yn hytrach na datblygu eu gweithdrefnau eu hunain. |
| 7.50(iv) Cofnodi arsylwadau a data a gafwyd o ymyriadau mewn dull amserol er mwyn sicrhau na chânt eu colli a sicrhau bod cofnodion cyfoes yn ddarllenadwy ac adferadwy. [Y Safon – 7.5] | Parhaus | Mae hyn yn cael ei wneud ac mae'n defnyddio ffurflenni arolygu'r ASB ac yn mewnbynnu data amserol ar y gronfa ddata ynghyd â storio dogfennau yn ffisegol ar hyn o bryd ac yn bwriadu storio dogfennau'n electronig ar y system EDMS yn y dyfodol. | Mae swyddogion wedi cofnodi data a gafwyd yn gywir drwy ddefnyddio ffurflenni safonol, a byddant yn mewnbynnu data cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr arolygiadau. Mae hyn yn cael ei fonitro gan Arweinydd y Tîm. |
| 8.12(i) Adolygu a diweddaru'r weithdrefn gofnodedig i roi canllawiau cynhwysfawr i swyddogion ar ymchwilio i gwynion am borthiant. [Y Safon – 8.1] | Parhaus | Y weithdrefn o ran canllawiau i swyddogion ynghylch ymchwilio i gwynion porthiant i'w datblygu ymhellach a'i diweddaru yn unol â chanllawiau a gynhyrchwyd yn ganolog. | Fel 7.50(iii) uchod. |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| 8.12(ii) Ymchwilio i bob cwyn a dderbynnir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2] | Wedi'i gwblhau | O ystyried barn yr archwilwyr nad oedd y weithdrefn o ran cwynion ar gyfer Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd wedi ei dilyn ym mhob achos, caiff y weithdrefn hon ei diwygio fel y gellir gwyro oddi wrthi mewn amgylchiadau lle nad yw'n briodol ymchwilio i gŵyn. Bydd polisi clir yn nodi pryd na ddylid ymchwilio i gŵyn yn cael ei ddatgan. | Mae Arweinydd y Tîm wedi mynd drwy bob cwyn fel rhan o'r weithdrefn fonitro fewnol a oedd eisoes ar waith cyn yr archwiliad. Maent yn fodlon ar yr holl gamau a gymerwyd gan y swyddog ymchwilio heblaw am un achos lle roedd Arweinydd y Tîm eisoes wedi tynnu sylw'r swyddog dan sylw at hyn. Cofnodwyd hyn ar y ffeil cwynion a welodd yr archwilydd.<br><br>Mae'r weithdrefn wedi ei diwygio i gynnwys cyfeiriad at allu swyddog ymchwilio i wyro oddi wrth y weithdrefn cyhyd ag y bo'n cofnodi'r rheswm dros y gwyriad hwn ar y ffeil cwynion a gellir cyfiawnhau’r gwyriad hwn ar sail iechyd cyhoeddus. |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| 11.7(i) Cynnal adolygiad o'r gronfa ddata porthiant er mwyn sicrhau ei chywirdeb. [Y Safon – 11.1] | Hydref 2014 | Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yr oedd angen ei wneud i sicrhau cywirdeb y gronfa ddata bellach wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, mae angen gwneud ychydig yn fwy o waith ynghylch cywirdeb y sgoriau risg.<br><br>Mae hyn yn cael ei wneud fel rhan o gynllun gweithredu Cyngor Sir y Fflint ei hun ac fel rhan o gynllun gweithredu NWHoTS sy'n nodi bod hwn yn faes i'w wella fel un o'r tair blaenoriaeth i wella'r ddarpariaeth o ran gwasanaeth porthiant ledled y gogledd. | Cyn archwiliad yr ASB cysylltwyd â phob safle perthnasol i adolygu eu gweithgareddau porthiant ar hyn o bryd ac i ailasesu risg. Mae cronfa ddata'r safleoedd porthiant wedi ei diweddaru yn seiliedig ar hyn. Mae'r gwaith hwn wedi parhau yn dilyn yr archwiliad ac mewn ymateb i argymhellion yr ASB a wnaed ar y pryd, ac mae wedi cynnwys adolygiad pellach o safleoedd porthiant cofrestredig er mwyn sicrhau cywirdeb. Caiff safleoedd sydd heb eu sgorio ar hyn o bryd eu cynnwys mewn cynllun tair blynedd i sicrhau cywirdeb risg asesedig. |
| 12.12(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu rhaglen samplu porthiant gofnodedig gan ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog neu ganllawiau perthnasol a'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 12.4] | I'w benderfynu | Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyllideb ar gael i gynnal rhaglen samplu porthiant o fewn cyllideb y tîm AH&HP.<br><br>Fodd bynnag, mae Sir y Fflint yn rhan o gais NWHoTS am gyllid a | Mae Sir y Fflint ar hyn o bryd yn aros am ganlyniad cais gan NHWoTS a wnaed ym mis Mawrth 2014 i ASB Cymru am gyllid i gefnogi rhaglen samplu porthiant wedi'i harwain gan |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| | | wnaed ym mis Mawrth 2014 i ASB Cymru (yn aros am y canlyniad (Gorffennaf 2014)). Mae hyn yn rhan o'r ddau brosiect darparu gwasanaeth porthiant a gynigiwyd gan NHWoTS fel dull cydweithredol o wella'r ddarpariaeth o ran gwasanaeth porthiant ledled y gogledd. Mae samplu porthiant yn un o dair blaenoriaeth NHWoTS ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o ran gwasanaeth porthiant ar gyfer 2014/15.<br><br>Bydd cyflwyno rhaglen samplu yn dibynnu ar dderbyn arian grant gan ASB Cymru drwy NWHoTS, a bydd y lefel yn dibynnu ar faint o grant a geir. Fel arall, byddai unrhyw waith samplu yn dibynnu ar Gyngor Sir y Fflint yn rhyddhau cyllid. | wybodaeth ledled y gogledd ar gyfer 2014/15. Nod y dull gweithredu hwn yw targedu unrhyw feysydd lle y nodwyd bod problem gyda'r adnodd cyfyngedig sydd ar gael i sicrhau'r effaith fwyaf. |
| 12.12(ii) Adolygu, diweddaru lle bo angen, cynnal a gweithredu'r gweithdrefnau samplu cofnodedig mewn perthynas â chaffael a diogelu samplau (bwyd), parhad tystiolaeth (porthiant) yn unol â'r | 2014 Awst | <u>Bwyd</u><br>Caiff y Weithdrefn Samplu Hylendid Bwyd ei diwygio i gwmpasu cyfarwyddiadau penodol ar storio samplau bwyd yn dilyn y broses samplu. Roedd hyn eisoes yn ei lle | Mae'r Weithdrefn Samplu Hylendid Bwyd yn cael ei diwygio ar hyn o bryd i gynnwys y cam diogelu ychwanegol hwn. |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | | ar adeg yr archwilio ar gyfer y Weithdrefn Samplu Hylendid Bwyd. Mae'r Polisi Samplu Bwyd eisoes yn nodi'r wybodaeth am gaffael samplau.<br><br><u>Porthiant</u><br>Caiff yr adolygiad o'r weithdrefn samplu ei gynnal gan ystyried bob pwynt a godwyd gan yr ASB. | Mae cyfeiriad at ddiogelu'r gadwyn dystiolaeth ar ffurf sêl diogelu samplau wedi ei gynnwys yn ein gweithdrefn samplu porthiant.<br>Yn fwy cyffredinol, mae gwaith ar weithdrefnau porthiant i sicrhau cysondeb ac unffurfiaeth ledled Cymru yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar ran y 22 o awdurdodau lleol gan weithgor WHoTS ar y cyd ag ASB Cymru. Y dyddiad targed ar gyfer cyflawni yw diwedd 2014 ar hyn o bryd.<br><br>Gwnaeth Cyngor Sir y Fflint gynghori'r ASB i aros am hyn yn hytrach na datblygu eu gweithdrefnau eu hunain. |
| 14.8(i) Sicrhau bod y weithdrefn digwyddiadau porthiant yn cynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau swyddfa a chanllawiau i swyddogion ar ymateb i rybuddion am borthiant a | 2014 Awst | Caiff y weithdrefn ei hadolygu yn unol â sylwadau'r ASB. Nid oes unrhyw drefniant y tu allan i oriau ffurfiol ar waith. Fodd bynnag, caiff manylion am y trefniadau y tu allan i oriau cyfredol (yn ôl y digwyddiadau | Mae'r weithdrefn wrthi'n cael ei hadolygu. |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| gyhoeddir gan yr ASB. [Y Safon – 14.1] | | iechyd anifeiliaid/clefyd anifeiliaid y mae'r tîm AH&HP yn ymdrin â hwy) drwy Call-Connect eu rhannu â'r ASB. | |
| 15.14(i) Sicrhau bod camau gorfodi cyfraith hylendid bwyd yn cael eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2] | Wedi'i gwblhau | a) Bydd y tîm yn mynychu'r hyfforddiant ar Sancsiynau Gorfodi ym mis Mai 2014.<br><br>b) Dylai esboniadau gael eu cofnodi ar ffeil y safle bob tro os gwyrir oddi wrth y weithdrefn. | Mae adolygiad wedi ei gynnal o'r pwyntiau manwl a godwyd gan archwiliad yr ASB ac mae mesurau unioni wedi eu rhoi ar waith lle bo angen. |
| 15.14(ii) Sicrhau y gwneir pob penderfyniad gorfodi yn dilyn ystyriaeth o bolisi gorfodi'r awdurdod ac y cofnodir y rhesymau dros wyro oddi wrth y polisi. [Y Safon – 15.4] | Wedi'i gwblhau | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â'r ffaith nad oes esboniad amlwg pam nad yw gweithredwr busnes bwyd wedi ei erlyn yn lle cyflwyno hysbysiad gwella hylendid iddo. | Mae'r ffurflen aide memoir eisoes wedi ei diwygio cyn yr archwiliad i gynnwys adran ar gamau gorfodi a rhesymeg. |
| <u>Hylendid Bwyd</u><br>16.7 (i) Cofnodi, gyda rhesymau dros wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] | Wedi'i gwblhau | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag achosion lle caiff adroddiadau archwilio eu hanfon ar ôl 14 diwrnod at y gweithredwr busnes bwyd ond nad oes esboniad am yr oedi cyn eu hanfon yn cael ei gofnodi ar ffeil.<br><br>Yn y dyfodol caiff unrhyw achosion | Mae Arweinydd y Tîm eisoes wedi cyflwyno system ar gyfer nodi pryd y caiff adroddiadau eu hanfon er mwyn sicrhau bod adroddiadau'n cael eu hanfon o fewn 14 diwrnod er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| | | o wyro o ran adroddiadau a gaiff eu hanfon yn ddiweddarach eu cofnodi ar ffeil. | Caiff unrhyw achos o wyro o ran anfon adroddiadau ei gofnodi ar y gronfa ddata. |
| <u>Safonau Bwyd</u><br>16.15 (i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy ar bob sefydliad bwyd yn ei ardal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad, penderfynu ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd lle nodwyd achos o fethu â chydymffurfio, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd a gwybodaeth cofrestru bwyd berthnasol.<br>[Y Safon – 16.1] | Erbyn diwedd mis Mawrth 2015 | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â:<br><br>a) Nid yw ffeiliau safleoedd papur ar gael ar gyfer pob safle mewn perthynas â Safonau Bwyd.<br><br>b) Nid yw cofnodion y gronfa ddata yn gynhwysfawr.<br>c) Nid yw ffurflenni adroddiadau arolygu yn rhoi dadansoddiad o'r achosion cyfreithiol o fethu â chydymffurfio a'r hyn a oedd yn argymhelliad yn unig.<br><br>d) Nid oedd gan y ffurflen adroddiad arolygu yr holl wybodaeth arni yr oedd disgwyl iddi ei chael.<br><br>Gwelliannau:<br><br>a) Uno ffeiliau safleoedd rhwng Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd. | Mae pob aelod o'r tîm bellach yn yr un swyddfa. O ganlyniad, mae'r broses o uno ffeiliau'r safleoedd wedi dechrau. Roedd gan yr adran Diogelwch Bwyd ffeil ar gyfer pob safle eisoes ac felly mae gwybodaeth am Safonau Bwyd yn cael ei rhoi ar yr un ffeiliau. Mae pob dogfen yn cael ei sganio ar y gronfa ddata fel rhan o'r arferion gwaith Symudol ac Ystwyth.<br><br>Cyn yr archwiliad, roedd cyfarwyddyd cofnodedig wedi ei roi er mwyn sicrhau bod gwahaniaeth clir rhwng achosion cyfreithiol o fethu â chydymffurfio ac argymhelliad. Mae hyn yn cael ei fonitro gan Arweinydd y Tîm hefyd. |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| | | b) Dylai cofnodion cronfa ddata fod yn gynhwysfawr drwy sganio pob dogfen o fis Chwefror 2014.<br><br>c) Darparu gwahaniaeth clir rhwng achosion cyfreithiol o fethu â chydymffurfio ac argymhelliad.<br><br>d) Llunio ffurflen adroddiad arolygu newydd ar gyfer Safonau Bwyd a chreu llythyr templed i'w ddefnyddio, yn debyg i dempledi Hylendid Bwyd. | Gofynnwyd am ddyfynbrisiau ar gyfer y newidiadau sydd i'w gwneud i'r Ffurflen Arolygu Safonau Bwyd. |
| <u>Porthiant</u><br>16.18(i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy ar bob sefydliad porthiant perthnasol a phorthiant a fewnforir yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Porthiant a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad, penderfynu ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion y camau a gymerwyd. [Y Safon – 16.1] | Parhaus | Mae'r cofnodion hyn yn bodoli bellach ar gyfer pob darn o waith a gwblhawyd ers archwiliad yr ASB. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen cynnal hyn yn llawn. | Mae'r holl waith porthiant a wneir yn ymgorffori'r defnydd o ffurflenni arolygu'r ASB, defnyddio system ffeilio â llaw ar gyfer cofnodion papur, a diweddaru'r gronfa ddata safleoedd porthiant i gofnodi'r holl waith a wneir. |

| MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| 16.18(ii) Sicrhau y cedwir cofnodion ac adroddiadau ymyrryd/arolygu am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 16.2] | Wedi'i gwblhau | Mae hyn bellach yn cael ei wneud. | Mae hyn yn cael ei wneud. |
| 19.16 (i) Gweithredu'r gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer porthiant a chadw cofnodion monitro mewnol am ddwy flynedd o leiaf. [Y Safon – 19.1 ac 19.3] | Wedi'i gwblhau. | Mae hyn bellach yn cael ei wneud. | Mae hyn yn cael ei wneud. |

**ATODIAD B**

**Dull/Methodoleg Archwilio**

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a methodoleg, fel a ganlyn:

***(1) Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod lleol***

Cafodd y polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol eu harchwilio:

**Atodiad B**

**Dull/Methodoleg Archwilio**

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a methodoleg, fel a ganlyn:

***(1) Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod lleol***

Cafodd y polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol eu harchwilio:

- Gwasanaeth Bwyd Cyngor Sir y Fflint – Cynllun Gwasanaeth 2013-14
- Cofnodion cyfarfodydd Gweithrediaeth Cyngor Sir y Fflint dyddiedig: 18.06.2013, 10.07.2013 a 15.11.2011 yn ymwneud â Chymeradwyo Cynlluniau Gwasanaeth Bwyd
- Cynllun Gweithredu Uno Safonau Bwyd/Diogelwch Bwyd – Tachwedd 2012
- Cynllun Gweithredu Bwydydd Anifeiliaid – Hydref 2013 hyd at ddiwedd Mawrth 2014
- Cynllun Gwella Bwydydd Anifeiliaid 2013
- Cynllun Datblygu Cydweithrediad Safonau Masnach Gogledd Cymru – Mehefin 2013 – Mehefin 2015
- Adroddiad Cynnydd Misol Cynllun Gwaith Cydweithrediad Safonau Masnach – 02.08.2013
- Memorandwm Dealltwriaeth Cydweithrediad Safonau Masnach Gogledd Cymru o ran Egwyddorion Llywodraethu – Medi 2013
- Nodyn Briffio Staff 1. Cydweithrediad Diogelu'r Cyhoedd Gogledd Cymru
- Cynllun Gwella Cyngor Sir y Fflint 2013-2017
- Cynllun Gwaith Gweithredol 2013 – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd Diogelu Iechyd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Rheoli Dogfennau
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Gweithdrefn Rheoli Dogfennau

- Cyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint – diweddarwyd Awst 2013
- Llythyr Penodi Dadansoddwr Cyhoeddus a Dadansoddwyr Amaethyddol neu Ddirprwy Ddadansoddwyr Amaethyddol dyddiedig 03.10.2013
- Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint o Wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd – Awdurdodi Swyddogion – Rhif dyroddi 4
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd – Hyfforddiant Cyffredinol
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Hyfforddiant ar Glefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Rhaglen Hyfforddi 2013/14
- Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Cynllun Dysgu a Datblygu 2012 – 2013
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Cynnal a Chadw
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Raddnoddi ar gyfer Thermomedrau Mesur Bwyd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Pwyso a Mesur y Defnydd o Gyfarpar, Graddnodi a Chynnal a Chadw
- Datganiad Polisi Diogelwch Gwybodaeth Cyngor Sir y Fflint
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Ymyriadau Hylendid Bwyd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Ymyriadau Safonau Bwyd
- Taflen Arolygu Hylendid Bwyd Safleoedd Arlwyo a Manwerthu
- Taflen Arolygu Hylendid Bwyd nad ydynt yn Safleoedd Arlwyo
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Gweithdrefn ar gyfer Ailymweliadau Hylendid Bwyd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Gwefan: Cyflwyniad i'r Ffurflen(ni) Arolygu ar gyfer Hylendid Bwyd Cyffredinol a/neu Sefydliadau sydd Angen Cymeradwyaeth
- Gweithdrefn Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint ar gyfer Rheolaethau Bwydydd a Fewnforir fel Awdurdod Mewndirol
- Gweithdrefn Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint ar gyfer Ardystiad Allforio Bwyd Anstatudol
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Gweithdrefn Cofrestru a Chymeradwyo
- Taenlen o ymweliadau hylendid porthiant ers 01.02.2002
- Taenlen o safleoedd hylendid bwyd risg uwch
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn ar gyfer Cymeradwyo Sefydliadau Busnesau Bwyd sy'n Trin Bwyd sy'n Dod o Anifeiliaid
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn ar gyfer Arolygu Safleoedd a Gymeradwywyd

o dan Reoliad EC 853/2004 a Gweithgynhyrchwyr (Nad ydynt wedi'u Cymeradwyo)

- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Gweithdrefn Arolygu
- Taenlen o safleoedd porthiant a sgoriau risg cysylltiedig
- Canllaw i Reoliad Hylendid Porthiant Rhif 183/2005 ar gyfer Swyddogion Gorfodi (aide memoire i swyddogion)
- Tabl yn cynnwys dadansoddiad o nifer y safleoedd porthiant fesul codau gweithgarwch R
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd, Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid – Polisi Cwynion
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd, Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid – Gweithdrefn Cwynion am Fwyd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Ceisiadau Gwasanaeth/Gweithdrefn Cyngor i Fusnesau
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Dadgysylltu Dŵr
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn ar gyfer Ymholiadau Cynllunio
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn ar gyfer Delio â Busnesau Cynllun y Prif Awdurdod fel Awdurdod Gorfodi
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Weinyddu'r Awdurdod Cartref/Gwreiddiol
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Weinyddu'r Prif Awdurdod
- Cytundeb Iceland Foods Limited a Chyngor Sir y Fflint yn ymwneud â Chymryd Rhan yng Nghynllun y Prif Awdurdod – Ebrill 2009
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Crynodeb o Waith Hyrwyddo Bwydydd Anifeiliaid, gyda thaflen cyngor o'r enw: Guidance to Farmers and Feed Business Operators on the EC Feed Hygiene Regulations (183/2005) a phoster ‘Are You Registered?’
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Adroddiad Cyngor i Fusnesau
- Cyflwyniad Powerpoint Cyngor Sir y Fflint o'r enw: How to Improve Your Food Hygiene Rating
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn ar gyfer Cynnal Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd Gywir
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Gweithdrefn ar gyfer Cadw Cronfa Ddata Safleoedd Bwydydd Anifeiliaid Gywir
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Polisi Samplu

- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Polisi Samplu Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Samplu Hylendid Bwyd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Samplu Gyffredinol Safonau Bwyd
- Rhaglen Samplu Bwyd Diogelwch Bwyd Cyngor Sir y Fflint 2013/2014
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Cynllun Samplu 2013/14
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Gweithdrefn Samplu
- Cofnodion cyfarfod Gweithrediaeth Cyngor Sir y Fflint dyddiedig; 18.10.2011 yn ymwneud â mabwysiadu Cynllun Achosion Clefydau Trosglwyddadwy Cymru
- Cofnodion cyfarfod Swyddogion Gweithredol Cyngor Sir y Fflint dyddiedig; 20.09.2011 yn ymwneud â mabwysiadu Polisi Gorfodi
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Ymchwilio i Glefydau Heintus Ysbeidiol sy'n Gysylltiedig â Bwyd
- Adran Diogelwch Bwyd Cyngor Sir y Fflint Canllawiau Ymchwilio i Achosion o Wenwyn Bwyd yn y Gymuned – Medi 2013
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn ar gyfer Rhybuddion Bwyd a Digwyddiadau Bwyd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Gweithdrefn Digwyddiad Porthiant
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Polisi Gorfodi Cyngor Sir y Fflint – Gorffennaf 2010
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Gorfodi
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn ar gyfer Cyflwyno Hysbysiad Camau Unioni
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn ar gyfer Atal ac Atafaelu Bwyd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Gweinyddu Hysbysiad Gwella Hylendid
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Mewnforio POAO o Drydydd Gwledydd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Camau Gorfodi – Bwyd nad yw'n Dod o Anifeiliaid
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Ildio Bwyd yn Wirfoddol

- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Cau yn Wirfoddol
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Strategaeth Gorfodi Amgen ar gyfer Safleoedd Bwyd Risg Isel
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol 2010
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd, Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid – Gweithdrefn Gweithrediadau Cyfreithiol
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Gweithdrefn Gorfodi
- Polisi Canmol, Pryderon a Chwynion Cyngor Sir y Fflint
- Cofnodion cyfarfodydd Penaethiaid Safonau Masnach Cymru – Grŵp Bwyd ac Amaethyddol Cymru dyddiedig; 04.06.2013 a 04.12.2012
- Cofnodion cyfarfodydd Panel Technegol Diogelwch Bwyd Gogledd Cymru dyddiedig; 30.05.2013, 06.12.2012 a 06.09.2012
- Cofnodion cyfarfodydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru – Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymru dyddiedig; 05.03.2013 a 10.12.2012
- Cofnodion cyfarfodydd Panel Bwyd a Mesureg Gogledd Cymru dyddiedig; 06.06.2013, 07.03.2013 a 22.10.2012
- Cofnodion cyfarfodydd yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Grŵp Archfarchnadoedd y Prif Awdurdod dyddiedig: 27.06.2013, 27.03.2013 a 09.01.2013
- Cofnodion cyfarfodydd y Panel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy dyddiedig; 18.07.2013, 02.05.2013 a 20.03.2013
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Y Weithdrefn ar gyfer Monitro Dulliau Gorfodi a Chamau Gweithredu Anffurfiol
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd – Gweithdrefn Fonitro Fewnol Feintiol
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Monitro Dulliau Gorfodi yn Fewnol a Gweithdrefn Camau Gweithredu Anffurfiol
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint – Bwydydd Anifeiliaid – Gweithdrefn Fonitro Fewnol Feintiol
- Nodyn o sylwadau boddhad cwsmeriaid 12/13, ynghyd â ffurflen Arolwg Boddhad Cwsmeriaid
- Cofnodion cyfarfodydd Adran Diogelwch Bwyd Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir y Fflint dyddiedig; 09.09.2013, 05.08.2013 a 08.07.2013
- Adroddiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir y Fflint – Ebrill 2013

***(2) Adolygiadau o ffeiliau***

Adolygwyd nifer o gofnodion awdurdodau lleol yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Ffeiliau arolygu safleoedd bwyd cyffredinol
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion am fwyd a safleoedd bwyd
- Cofnodion gorfodi ffurfiol
- Awdurdodiadau swyddogion, rhestrau gwirio cymhwysedd a chofnodion hyfforddi
- Cofnodion monitro mewnol
- Cofnodion graddnodi
- Cofnodion Digwyddiadau Bwyd

***(3) Adolygu cofnodion y Gronfa ddata:***

Ystyriwyd detholiad o gofnodion cronfa ddata yn ystod yr archwiliad er mwyn:

- Adolygu ac asesu pa mor gyflawn oedd cofnodion y gronfa ddata o ran arolygiadau bwyd/porthiant, ymchwiliadau i gwynion am fwyd/porthiant a safleoedd bwyd/porthiant, samplau a gymerwyd gan yr awdurdod, dulliau gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill a chadarnhau cysondeb â chofnodion y ffeiliau
- Asesu pa mor gyflawn a chywir oedd y cronfeydd data safleoedd bwyd a phorthiant
- Asesu gallu'r system i lunio adroddiadau gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd/porthiant a'r wybodaeth fonitro sy'n ofynnol yn ôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

**(4)*) Cyfweliadau swyddogion***

Cynhaliwyd cyfweliadau swyddogion gyda'r nod o feithrin dealltwriaeth bellach o'r modd y gweithredir Trefniadau rheoli bwyd/porthiant yr awdurdod. Cafodd y swyddogion canlynol eu cyfweld:

Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd Dros Dro
Rheolwr Diogelu Iechyd
Arweinydd y Tîm Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd
Arweinydd y Tîm Iechyd Anifeiliaid a Hybu Iechyd
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
Swyddog Diogelwch Bwyd
Swyddog Safonau Masnach
Swyddog Gorfodi Safonau Masnach

Caiff barn a safbwyntiau a godwyd yn ystod cyfweliadau'r swyddogion eu cadw'n gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

**(5) *Gwiriadau dilysu ar y safle:***

Gwnaed ymweliadau dilysu gyda swyddogion â phedwar busnes bwyd lleol a busnes porthiant. Diben yr ymweliadau hyn oedd dilysu canlyniad yr arolygiadau diwethaf a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Lleol ac asesu i ba raddau y gwnaeth y gweithgareddau a'r penderfyniadau gorfodi fodloni gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol a dogfennau canllaw a gyhoeddwyd yn ganolog.

**ATODIAD C**

# Geirfa

| | |
|---|---|
| Archwilio Rhwng Awdurdodau | System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd gytûn, |
| Archwilydd Bwyd | Unigolyn sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig ac sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol. |
| Awdurdod Cartref | Awdurdod lle y caiff penderfyniadau perthnasol eu gwneud ar ran busnes ac sy'n gyfrifol am roi cyngor i'r busnes hwnnw ar faterion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill o ran polisïau a gweithdrefnau bwyd y cwmni hwnnw. |
| Awdurdod gwreiddiol | Awdurdod y mae busnes yn ei ardal yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethau ac y mae'r awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill mewn perthynas â'r cynhyrchion hynny. |
| Awdurdod Unedol | Awdurdod lleol y mae'r holl swyddogaethau wedi'u cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys hylendid bwyd, safonau bwyd a threfniadau gorfodi bwydydd anifeiliaid. |
| Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol | Corff sy'n atebol i lywodraeth sy'n rhoi arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i helpu i fynd i'r afael â niwed i ddefnyddwyr a busnesau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. |
| Busnes heb sgôr | Busnes bwyd a nodwyd gan awdurdod nad yw wedi bod yn destun asesiad sgorio risg rheoleiddiol. |
| Codau Ymarfer | Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllaw i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth bwyd. |

| | |
|---|---|
| CPIA | Mae Deddf Gweithdrefnau Troseddol ac Ymchwiliadau 1996 – yn rheoli gweithdrefnau ar gyfer cynnal ymchwiliadau a gweithrediadau troseddol. |
| Cyfwerth ag Amser Llawn | Ffigur sy'n cynrychioli'r amser sydd gan swyddog unigol i ymgymryd â rôl benodol neu set o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion weithio ar sail rhan amser ac y gallant fod yn gyfrifol am bethau eraill o fewn y sefydliadau nad ydynt yn gysylltiedig â threfniadau gorfodi bwyd. |
| Cynllun Gwasanaeth | Dogfen a gyhoeddir gan awdurdod lleol yn nodi ei gynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth bwyd i'w gymuned leol. |
| Dadansoddwr Cyhoeddus | Swyddog sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i gynnal dadansoddiadau cemegol ar samplau bwyd. |
| Fforwm Aelodau | Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor a etholwyd yn lleol yn trafod ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd. |
| Ffurflenni OCD | Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n ofynnol eu cwblhau ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheoli Bwydydd Swyddogol. |
| HACCP | Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hollbwysig o ran diogelwch bwyd bod y mesur Rheoli yn cael ei gyflawni'n gywir, gan ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel. |
| Hylendid bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu diogelwch ac iachusrwydd bwyd. |
| Hysbysiad Gwella Hylendid | Hysbysiad a gyflwynir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd gyflawni gwaith |

| | |
|---|---|
| | addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion hylendid bwyd neu ddeddfwriaeth prosesu bwyd. |
| LAEMS | Mae System Monitro Trefniadau Gorfodi Awdurdodau Lleol yn system electronig a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i roi gwybod i'r Asiantaeth Safonau Bwyd am eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd. |
| PACE | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – yn rheoli gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol. |
| Pennaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru (WHoEH) | Grŵp o uwch-weithwyr proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd mewn awdurdodau lleol sy’n cefnogi ac yn hyrwyddo Iechyd Amgylcheddol a Chyhoeddus yng Nghymru. |
| Penaethiaid Safonau Masnach Cymru (WHoTS) | Grŵp o uwch-weithwyr proffesiynol Safonau Masnach mewn awdurdodau lleol sy’n cefnogi ac yn hyrwyddo Safonau Masnach yng Nghymru. |
| Prif Awdurdod | Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth â busnes sy'n masnachu ar draws ffiniau awdurdod lleol ac sy'n darparu cyngor i'r busnes hwnnw. |
| Rhybuddion am Beryglon Bwyd/ Rhybuddion am Fwyd | System yw hon a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol ynghylch diogelwch bwyd. |
| Safleoedd cymeradwy | Safleoedd gweithgynhyrchu bwyd sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac wedi cael cod adnabod unigryw sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol. |
| Safonau bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu ansawdd, cyfansoddiad, labeli, cyflwyniad a hysbysebion bwyd, a deunydd sy'n dod i gysylltiad â bwyd. |
| Safonau Masnach | Y gwasanaeth mewn awdurdod lleol sydd, ymhlith cyfrifoldebau eraill, yn cynnal y gwaith o orfodi safonau bwyd a deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid. |

| | |
|---|---|
| Sgôr Risg | System sy'n sgorio safleoedd bwyd yn ôl risg ac yn pennu pa mor aml y dylid archwilio'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid archwilio safleoedd hylendid risg uchel o leiaf unwaith bob chwe mis. |
| Swyddog Safonau Masnach | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sy'n gallu gorfodi safonau bwyd a deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill. |
| Swyddog awdurdodedig | Swyddog sydd â chymwysterau addas ac sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran i orfodi deddfwriaeth, er enghraifft. |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Proffesiynol | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd. |
| Y Cytundeb Fframwaith | Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys:<br>• Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd<br>• Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth<br>• Cynllun Monitro<br>• Cynllun Archwilio<br><br>Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth mewn perthynas â chynllunio a darparu trefniadau gorfodi cyfraith bwyd.<br><br>Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth yn ymwneud â'u gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd h.y. nifer yr archwiliadau, samplau ac erlyniadau.<br><br>O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn erbyn y meini prawf a nodir yn y Safon. |